# DeCity & Guilds Lefel 2 Dyfarniadau/ Tystysgrifau / Diplomâu mewn Therapi Harddwch (3003)

www.cityandguilds.com
Medi 2024
Fersiwn 7.3

## Llawlyfr Cymwysterau i ganolfannau

Ar gyfer addysgu o fis Medi 2024 ymlaen

**Ynglŷn â City & Guilds**
City & Guilds yw prif ddarparwr cymwysterau galwedigaethol y DU, gan gynnig dros 500 o ddyfarniadau ar draws ystod eang o ddiwydiannau, gan symud ymlaen o lefel mynediad i'r lefelau uchaf o gyflawniad proffesiynol. Gyda mwy na 8500 o ganolfannau mewn 100 o wledydd, mae cyflogwyr ledled y byd yn cydnabod City & Guilds am ddarparu cymwysterau sy'n cynnig prawf o'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud y gwaith.

**Grŵp City & Guilds**
Mae Grŵp City & Guilds yn cynnwys City & Guilds, ILM (Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth) sy'n cynnig cymwysterau rheolaeth, deunyddiau dysgu a gwasanaethau aelodaeth, NPTC City & Guilds (sy'n cynnig cymwysterau tir a gwasanaethau aelodaeth), HAB City & Guilds (y Corff Dyfarnu Lletygarwch) a Chanolfan Datblygu Sgiliau City & Guilds. Mae City & Guilds hefyd yn rheoli Arholiadau'r Cyngor Peirianneg ar ran y Cyngor Peirianneg.

**Cyfleoedd cyfartal**
Mae City & Guilds yn llwyr gefnogi'r egwyddor o gyfle cyfartal ac rydym wedi ymrwymo i fodloni'r egwyddor hon yn ein holl weithgareddau a deunydd cyhoeddedig. Mae copi o'n datganiad polisi cyfle cyfartal ar gael ar ein gwefan.

**Hawlfraint**
Mae cynnwys y ddogfen hon, oni nodir yn wahanol, yn hawlfraint © City & Guilds Limited ac ni ellir ei chopïo, ei hatgynhyrchu na'i dosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Fodd bynnag, gall canolfannau cymeradwy City & Guilds ac ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnrwyd canolfannau ar yr amodau canlynol:
gall staff y ganolfan gopïo'r deunydd at ddibenion addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds yn unig, neu at ddibenion gweinyddu mewnol
gall ymgeiswyr gopïo'r deunydd at eu defnydd eu hunain yn unig wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r Amodau Copïo Safonol (sydd i'w gweld ar wefan) City & Guilds hefyd mewn grym.

Noder: Nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © City & Guilds Limited. Gwiriwch yr amodau y gellir eu copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol.

Cyhoeddwyd gan City & Guilds Limited.

**Cyhoeddiadau**
Mae cyhoeddiadau City & Guilds ar gael o'n gwefan a gan ein hadran Gwerthu Cyhoeddiadau, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a welir isod.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg mynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds yn destun datblygiad a gwelliant parhaus a chedwir hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn atebolrwydd am golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

**City & Guilds**
**5-6 Giltspur Street**
**Llundain EC1A 9DE**
**Ffôn +44 (0)844 543 0000 www.cityandguilds.com**
**Ffacs +44 (0)20 7294 2413 centresupport@cityandguilds.com**

# City & Guilds DeCity & Guilds Lefel 2 Dyfarniadau/ Tystysgrifau / Diplomâu mewn Therapi Harddwch (3003)

www.cityandguilds.com
Medi 2024
Fersiwn 7.37.3

## Ar gyfer addysgu o fis Medi 2024 ymlaen

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 2 Diplomâu** | | |
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn  Gwasanaethau Therapi Harddwch 14+ | 3003-60 | 500/8778/2 |
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Therapi Harddwch 16+ | 3003-63 | 500/9076/8 |
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Technoleg Ewinedd 16+ | 3003-65 | 500/8775/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Gwallt a Cholur Cyfryngau 16+ | 3003-66 | 500/8845/2 |
| **Lefel 2 Tystysgrifau** | | |
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch 14+ | 3003-40 | 500/8940/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Colur 16+ | 3003-43 | 500/9845/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Technoleg ewinedd 16+ | 3003-49 | 500/9201/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Celf ewinedd 16+ | 3003-50 | 500/8943/2 |
| **Lefel 2 Dyfarniadau** | | |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Therapi Clyw | 3003-92 | 600/2365/X |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Edafu | 3003-92 | 600/1203/1 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Gweithio yn y Diwydiant Trin Gwallt | 3003-92 | 600/5707/5 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Derbynfa Salon Harddwch 14+ | 3003-92 | 500/8642/X |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Colur 16+ | 3003-92 | 500/8652/2 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin dwylo+ | 3003-92 | 500/8713/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin traed+ | 3003-92 | 500/8630/3 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Celf ewinedd 16+ | 3003-92 | 500/8711/3 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn  Technoleg Ewinedd+ | 3003-92 | 500/8684/4 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Sector Gwallt a Harddwch+ 16+ | 3003-92 | 500/8640/6 |

| Fersiwn a dyddiad | **Newid manylion** | **Adran** |
|---|---|---|
| 3.2 Mawrth 2012 | Diwygio cyfeiriad at garbon monocsid i garbon deuocsid yn yr ystod ar gyfer canlyniad 2, uned 202 | Unedau |
| 4.0 Awst 2012 | Strwythur wedi'i ychwanegu– 3003-82<br>Gwybodaeth wedi'i hychwanegu at adran 3 a 5 | Strwythur y Cymhwyster |
| 4.1 Mawrth 2014 | Wedi newid teitl:<br>500/8640/6 - 3003-92<br>500/8637/6 - 3003-92<br>500/8712/5 - 3003-92<br>500/8953/5 - 3003-46-92<br><br>Dyddiadau gorffen cofrestru ac ardystio wedi'u dileu. | Cyflwyniad a strwythur cymhwyster<br><br>Cyflwyniad |
| 5.0 Medi 2014 | Wedi ychwanegu gwerthoedd credyd cywir ar gyfer<br>uned 206 (tudalen 54)<br>uned 211 (tudalen 79)<br>unedau 227 a 310 (tudalen 16) | Strwythur y Cymhwyster ac Unedau |
| 5.1 Mawrth 2016 | Wedi ychwanegu at ganlyniad 1, uned 221 (tudalen 117) | Unedau |
| 5.2 Awst 2017 | Manylion ODDA a CAC wedi'u hychwanegu | Strwythur y Cymhwyster |
| 6.0 Mawrth 2022 | Teitlau cymwysterau wedi'u diweddaru gyda 'City & Guilds'<br>Cyfeiriad City and Guilds wedi'i ddiweddaru<br>Cyfeiriadau at GOLA wedi'u symud a'u diweddaru i Evolve | Trwy'r cyfan |
| 6.1Tachwedd 2022 | ODDA wedi'i newid ar gyfer 3003-25 Lefel 2 Diploma mewn Gwelliannau Technoleg Ewinedd | Strwythur y Cymhwyster |
| 7.0 Ionawr 2023 | Pob delwedd wedi'i symud | Trwy'r cyfan |
| Gorffennaf 7.1 | Symud cymwysterau a ddaeth i bren | Strwythur y Cymhwyster |
| 7.2 Mai 2024 | Diweddarwyd hawlfraint<br>Diweddarwyd CASS<br>Diweddarwyd dull asesu | Trwy'r cyfan |

City & Guilds
**Credwch yn eich gallu**

www.cityandguilds.com

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad i'r cymwysterau | 6 |
| 2 | Strwythur cymwysterau | 8 |
| 3 | Gofynion y ganolfan | 17 |
| 4 | Cynllunio a chyflwyno'r cwrs | 23 |
| 5 | Asesu | 25 |
| 6 | Unedau | 27 |
| Uned 201 | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | 28 |
| Uned 202 | Dilyn ymarfer iechyd a diogelwch yn y salon | 32 |
| Uned 203 | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch | 36 |
| Uned 204 | Darparu gofal croen wyneb | 39 |
| Uned 205 | Hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau i gleientiaid mewn salon | 44 |
| Uned 206 | Symud gwallt gan ddefnyddio technegau cwyro | 47 |
| Uned 207 | Darparu triniaethau dwylo | 52 |
| Uned 208 | Darparu triniaethau traed | 57 |
| Uned 209 | Rhoi colur | 62 |
| Uned 210 | Darparu triniaethau blew amrant ac aeliau | 67 |
| Uned 211 | Cyfarwyddyd ar osod colur | 72 |
| Uned 212 | Creu Delwedd wedi'i seilio ar Thema yn y Sector Gwallt a Harddwch | 77 |
| Uned 213 | Arddangos stoc i hyrwyddo gwerthiant mewn salon | 80 |
| Uned 214 | Darparu a chynnal gwelliannau ewinedd | 83 |
| Uned 215 | Darparu celf ewinedd | 88 |
| Uned 216 | Dyletswyddau derbynfa salon | 93 |
| Uned 217 | Darparu tyllau clust | 97 |
| Uned 218 | Darparu pyrmio blew amrant | 99 |
| Uned 219 | Darparu gwasanaethau edafu ar gyfer symud blew | 105 |
| Uned 220 | Celfyddyd colur ffotograffig | 109 |
| Uned 221 | Dylunio celf corff | 112 |
| Uned 222 | Tylino pen | 116 |
| Uned 223 | Defnyddio technegau lliw croen | 121 |
| Uned 224 | Gofal wyneb i ddynion | 126 |
| Uned 225 | Siapio a lliwio aeliau | 131 |
| Uned 226 | Celfyddyd lliwio gwallt | 136 |
| Uned 227 | Celfyddyd trin gwallt | 140 |
| Uned 229 | Darparu therapi thermol y glust | 144 |
| Uned 310 | Gwneud a steilio ychwanegiad gwallt | 149 |
| Atodiad 1 | Anatomeg a ffisioleg | 152 |
| Atodiad 2 | Cysylltiadau chymwysterau eraill ac SGC | 167 |
| Atodiad 3 | Y cwricwlwm ehangach | 170 |

# 1 Cyflwyniad i’r cymwysterau

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen ar ganolfannau i gynnig y canlyniadau canlynol:

Gweler y Walled Garden/ Catalog ar-lein ar gyfer dyddiadau olaf cofrestru ac ardystio.

| Teitl a lefel y cymhwyster | Rhifau cymhwyster City & Guilds | Rhifau achredu Ofqual |
|---|---|---|
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch | 3003-60 | 500/8778/2 |
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Therapi Harddwch | 3003-63 | 500/9076/8 |
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Gwelliannau Technoleg Ewinedd | 3003-65 | 500/8775/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Gwallt a Cholur Cyfryngau | 3003-66 | 500/8845/2 |
| 3003-40 City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch | 3003-40 | 500/8940/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasanaethau Ymgynghori Harddwch | 3003-41 | 500/8938/9 |
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Colur | 3003-43 | 500/9845/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Technoleg ewinedd | 3003-49 | 500/9201/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Therapi Clyw | 3003-92 | 600/2365/X |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Edafu | 3003-92 | 600/1203/1 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Derbynfa Salon Harddwch | 3003-92 | 500/8642/X |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Colur | 3003-92 | 500/8652/2 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin dwylo | 3003-92 | 500/8713/7 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin traed | 3003-92 | 500/8630/3 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Celf ewinedd | 3003-92 | 500/8711/3 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Technoleg Ewinedd | 3003-92 | 500/8684/4 |
| City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Sector Gwallt a Harddwch | 3003-92 | 500/8640/6 |

## Crynodeb y cymwysterau

Mae'r cymwysterau hyn yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Maent yn paratoi ar gyfer cymwysterau gwaith sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen yn y diwydiant gwallt.

## Cyfleoedd ar gyfer dilyniant

Mae'r Diplomâu/ Tystysgrifau/ Dyfarniadau Lefel 2 Therapi Harddwch yn addas ar gyfer pobl sydd wedi dilyn cymhwyster lefel 2 neu lefel 1, a/neu sydd wedi bod yn gweithio yn y diwydiant ac sy'n awyddus i achredu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae'r cymwysterau hyn yn darparu cyfleoedd dilyniant i'r rhai sydd â'r bwriad o symud ymlaen i rôl oruchwylio neu fwy technegol neu i gymhwyster lefel 3.

## Cyfyngiadau oedran

O fewn y gyfres o gymwysterau ar Lefel 2, mae rhai cymwysterau y nodwyd **nad** ydynt yn addas ar gyfer ymgeiswyr o dan 16 oed. Nodir amrediadau oed am bob cymhwyster yn Adran 2

Dylai canolfannau ac ymgeiswyr fod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion oedran lleiaf ac unrhyw oblygiadau ar gyfer cwblhau asesiadau.

**Cymwysterau addas i ymgeiswyr 14+**

- 300-60 City & Guilds Lefel 3003 Diploma mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch
- 3003-40 City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch
- 3003-92 City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Derbynfa Salon Harddwch

**Mae'r holl gymwysterau eraill yn addas i ymgeiswyr 16+**

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am gymwysterau City & Guilds a dylid cyfeirio atynt ar y cyd â'r llawlyfr hwn. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar-lein o **www.cityandguilds.com**.

| Cyhoeddiad | Cynnwys |
|---|---|
| *Darparu cymwysterau City & Guilds–canllaw i gymeradwyo canolfannau a chymwysterau* | Mae hyn yn rhoi gwybodaeth fanwl am y prosesau y mae'n rhaid eu dilyn a'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ganolfan ennill statws 'canolfan gymeradwy', neu gynnig cymhwyster penodol. |
| *Sicrhau ansawdd* | Mae gan hyn ddiweddariadau ar faterion asesu a pholisi City & Guilds |
| *Walled Garden* | Mae hyn yn cynnwys manylion y strwythur cymwysterau, y gweithdrefnau cofrestru ac ardystio a'r ffioedd. |

# 1 Strwythur cymwysterau

## 3003-60 City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch gydag Evolve

Mae angen lleiafswm o **39** credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid cyflawni'r **holl** unedau gorfodol sy'n gyfanswm o **35** credyd a lleiafswm o **4** credyd o'r unedau dewisol. Argymhellir **328** o oriau dysgu dan arweiniad.

| **Unedau Generig Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Uned 201** | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **31** | **4** |
| **Uned 202** | Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | **24** | **3** |
| **Uned 203** | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **20** | **2** |
| **Unedau Technegol Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | | |
| **Uned 204** | Darparu gofal croen wyneb | **56** | **7** |
| **Uned 207** | Darparu triniaethau dwylo | **48** | **5** |
| **Uned 208** | Darparu triniaethau traed | **48** | **5** |
| **Uned 209** | Rhoi colur | **41** | **5** |
| **Uned 225** | Siapio a lliwio aeliau | **30** | **4** |
| **Unedau Dewisol (angen lleiafswm o 4 credyd)** | | | |
| **Uned 212** | Creu delwedd wedi'i seilio ar thema o fewn y sector gwallt a harddwch | **60** | **7** |
| **Uned 215** | Darparu celf ewinedd | **24** | **3** |
| **Uned 216** | Dyletswyddau derbynfa salon | **24** | **3** |
| **Uned 220** | Celfyddyd colur ffotograffig | **30** | **5** |
| **Uned 221** | Dylunio celf corff | **30** | **4** |
| **Uned 222** | Tylino pen | **30** | **4** |
| **Uned 223** | Defnyddio technegau lliw haul ar y croen | **30** | **4** |
| **Uned 224** | Gofal wyneb i ddynion | **30** | **4** |

## 3003-40 City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch

## 3003-80 City & Guilds Lefel 2 Therapi Harddwch profion Evolve yn unig (nid cymwysterau llawn)

Mae angen lleiafswm o **26** credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid cyflawni'r **holl** unedau gorfodol sy'n gyfanswm o **26** credyd. Argymhellir **227** o oriau dysgu dan arweiniad.

| **Unedau Generig Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Uned 201** | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **31** | **4** |
| **Uned 202** | Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | **24** | **3** |
| **Uned 203** | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **20** | **2** |
| **Unedau Technegol Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | | |
| **Uned 204** | Darparu gofal croen wyneb | **56** | **7** |
| **Uned 207** | Darparu triniaethau dwylo | **48** | **5** |
| **Uned 208** | Darparu triniaethau traed | **48** | **5** |

## 3003-63 City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Therapi Harddwch gydag Evolve

Mae angen lleiafswm o **54** credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid cyflawni'r **holl** unedau gorfodol sy'n gyfanswm o **42** credyd a lleiafswm o **12** credyd o'r unedau dewisol. Argymhellir **468** o oriau dysgu dan arweiniad.

| **Unedau Generig Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Uned 201** | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **31** | **4** |
| **Uned 202** | Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | **24** | **3** |
| **Uned 203** | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **20** | **2** |
| **Uned 205** | Hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaeth i gleientiaid mewn salon | **28** | **3** |
| **Uned 216** | Dyletswyddau derbynfa salon | **24** | **3** |
| **Unedau Technegol Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | | |
| **Uned 204** | Darparu gofal croen wyneb | **56** | **7** |
| **Uned 206** | Symud gwallt gan ddefnyddio technegau cwyro | **57** | **6** |
| **Uned 207** | Darparu triniaethau dwylo | **48** | **5** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Uned 208** | Darparu triniaethau traed | **48** | **5** |
| **Uned 210** | Darparu triniaethau blew amrant ac aeliau | **36** | **4** |
| **Unedau Dewisol (angen lleiafswm o12 credyd)** | | | |
| **Uned 209** | Rhoi colur | **41** | **5** |
| **Uned 212** | Creu delwedd wedi'i seilio ar thema o fewn y sector gwallt a harddwch | **60** | **7** |
| **Uned 214** | Darparu a chynnal gwelliannau ewinedd | **46** | **7** |
| **Uned 215** | Darparu celf ewinedd | **24** | **3** |
| **Uned 217** | Darparu tyllau clust | **17** | **2** |
| **Uned 218** | Pyrmio blew amrant | **20** | **2** |
| **Uned 219** | Darparu gwasanaethau edafedd ar gyfer symud blew | **29** | **4** |
| **Uned 222** | Tylino pen | **30** | **4** |
| **Uned 223** | Defnyddio technegau lliw haul ar y croen | **30** | **4** |
| **Uned 224** | Gofal wyneb i ddynion | **30** | **4** |

## 3003-65 City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Gwelliannau Technoleg Ewinedd gydag Evolve

Mae angen lleiafswm o **55** credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid cyflawni'r holl unedau gorfodol sy'n gyfanswm o **42** credyd a lleiafswm o **13** credyd o'r unedau dewisol. Argymhellir **457** o oriau dysgu dan arweiniad.

| **Unedau Generig Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Uned 201** | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **31** | **4** |
| **Uned 202** | Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | **24** | **3** |
| **Uned 203** | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **20** | **2** |
| **Uned 205** | Hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaeth i gleientiaid mewn salon | **28** | **3** |
| **Uned 212** | Creu delwedd wedi'i seilio ar thema o fewn y sector gwallt a harddwch | **60** | **7** |
| **Uned 216** | Dyletswyddau derbynfa salon | **24** | **3** |
| **Unedau Technegol Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | | |
| **Uned 207** | Darparu triniaethau dwylo | **48** | **5** |
| **Uned 208** | Darparu triniaethau traed | **48** | **5** |
| **Uned 214** | Darparu a chynnal gwelliannau ewinedd | **60** | **7** |
| **Uned 215** | Darparu celf ewinedd | **24** | **3** |
| **Unedau Dewisol– (angen lleiafswm o 13 credyd)** | | | |
| **Uned 204** | Darparu gofal croen wyneb | **56** | **7** |
| **Uned 209** | Rhoi colur | **41** | **5** |
| **Uned 210** | Darparu triniaethau blew amrant ac aeliau | **36** | **4** |
| **Uned 213** | Arddangos stoc i hyrwyddo gwerthiant mewn salon | **24** | **3** |
| **Uned 220** | Celfyddyd colur ffotograffig | **30** | **5** |
| **Uned 221** | Dylunio celf corff | **30** | **4** |
| **Uned 223** | Defnyddio technegau lliw haul ar y croen | **30** | **4** |

## 3003-66 City & Guilds Lefel 2 Diploma mewn Gwallt a Cholur Cyfryngau gydag Evolve

Mae angen lleiafswm o **57** credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid cyflawni'r **holl** unedau gorfodol. Argymhellir **452** o oriau dysgu dan arweiniad.

| **Unedau Generig Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Uned 201** | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **31** | **4** |
| **Uned 202** | Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | **24** | **3** |
| **Uned 203** | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **20** | **2** |
| **Unedau Technegol Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | | |
| **Uned 209** | Rhoi colur | **41** | **5** |
| **Uned 210** | Darparu triniaethau blew amrant ac aeliau | **36** | **4** |
| **Uned 212** | Creu delwedd wedi'i seilio ar thema o fewn y sector gwallt a harddwch | **60** | **7** |
| **Uned 220** | Celfyddyd colur ffotograffig | **30** | **5** |
| **Uned 221** | Dylunio celf corff | **30** | **4** |
| **Uned 223** | Defnyddio technegau lliw haul ar y croen | **30** | **4** |
| **Uned 226** | Celfyddyd lliwio gwallt | **60** | **7** |
| **Uned 227** | Celfyddyd trin gwallt | **30** | **5** |
| **Uned 310** | Gwneud a steilio ychwanegiad gwallt | **60** | **7** |

## 3003-43 City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Colur

## 3003-80 City & Guilds Lefel 2 Therapi Harddwch profion Evolve yn unig (nid cymwysterau llawn)

Mae angen lleiafswm o **18** credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn. Rhaid cyflawni'r **holl** unedau gorfodol sy'n gyfanswm o **18** credyd. Argymhellir **150** o oriau dysgu dan arweiniad.

| **Unedau Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Uned 201** | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **31** | **4** |
| **Uned 202** | Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | **24** | **3** |
| **Uned 203** | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **20** | **2** |
| **Uned 209** | Rhoi colur | **41** | **5** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Uned 210** | Darparu triniaethau blew amrant ac aeliau | **36** | **4** |

## 3003-49 City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Technoleg ewinedd
## 3003-80 City & Guilds Lefel 2 Therapi Harddwch profion Evolve yn unig (nid cymwysterau llawn)

Mae angen lleiafswm o **19** credyd i gyflawni'r cymhwyster hwn.  Rhaid cyflawni'r **holl** unedau gorfodol sy'n gyfanswm o **19** credyd.  Argymhellir **149** o oriau dysgu dan arweiniad.

| **Unedau Gorfodol (rhaid cwblhau pob un)** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Uned 201** | Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **31** | **4** |
| **Uned 202** | Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | **24** | **3** |
| **Uned 203** | Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch | **20** | **2** |
| **Uned 205** | Hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaeth i gleientiaid mewn salon | **28** | **3** |
| **Uned 214** | Darparu a chynnal gwelliannau ewinedd | **60** | **7** |

## 3003-92 City & Guilds Lefel 2 Dyfarniadau mewn Therapi Harddwch, Ewinedd a Sba

Dangosir yr uned a gynhwysir ym mhob cymhwyster isod.

Os nad yw ymgeisydd wedi cwblhau unrhyw gymhwyster cysylltiedig achrededig blaenorol neu os nad oes ganddo brofiad gwaith blaenorol yn y diwydiant therapi harddwch/gwasanaethau ewinedd, yna rhaid cymryd y Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch ochr yn ochr â'r dyfarniad technegol.

| **Teitl** | | **ODDA** | **Credydau** |
|---|---|---|---|
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn dilyn Arferion Iechyd a diogelwch yn y salon** | | | |
| **Uned 202** Dilyn iechyd a diogelwch yn y salon | | **24** | **3** |
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin dwylo** | | | |
| **Uned 207** | Darparu triniaeth dwylo | **48** | **5** |
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin traed** | | | |
| **Uned 208** | Darparu triniaeth traed | **48** | **5** |
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Colur** | | | |
| **Uned 209** | Rhoi colur | **41** | **5** |

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Technoleg ewinedd** | | |
| **Uned 214** Darparu a chynnal gwelliannau ewinedd | **46** | **7** |

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Celf ewinedd** | | |
| **Uned 215** Darparu celf ewinedd | **24** | **3** |

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Derbynfa Salon Harddwch** | | |
| **Uned 216** Dyletswyddau derbynfa salon | **24** | **3** |

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Therapi'r Glust** | | |
| **Uned 229** Darparu therapi thermol y glust | **20** | **2** |

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 2 Dyfarniad mewn Edafu** | | |
| **Uned 219** Darparu gwasanaeth edafu ar gyfer symud blew | **29** | **4** |

## Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cyfanswm amser y Cymhwyster (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i Ddysgwr eu treulio i ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sydd wedi'u rhestru ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, astudio ac asesu.

| **Teitl a lefel** | **ODDA** | **CAC** |
|---|---|---|
| Lefel 2 Diploma mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch | 326 | 390 |
| Lefel 2 Diploma Therapi Harddwch | 459 | 540 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwelliannau Technoleg Ewinedd | 443 | 550 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwallt a Cholur Cyfryngau | 450 | 570 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch | 227 | 260 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Colur | 150 | 180 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Technoleg ewinedd | 149 | 190 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Therapi'r Glust | 20 | 20 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Derbynfa Salon Harddwch | 24 | 30 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Colur | 41 | 50 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin dwylo | 48 | 50 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin traed | 48 | 50 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Celf ewinedd | 24 | 30 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Technoleg ewinedd | 46 | 70 |
| Lefel 3002 Lefel 2 Dyfarniad mewn Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Sector Gwallt a Harddwch | 22 | 30 |

## 2.1 Deunyddiau cefnogi cymhwyster

Mae City & Guilds hefyd yn darparu'r cyhoeddiadau a'r adnoddau canlynol yn benodol ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael mynediad |
|---|---|
| Pecyn asesu | I'w lawrlwytho o'n gwefan |
| Llawlyfr cymwysterau | I'w lawrlwytho o'n gwefan |
| Llyfr log ymgeisydd | Archebu trwy'r Walled Garden neu trwy e-bostio: **learningmaterials@cityandguids.com <mailto:learningmaterials@cityandguids.com>** |
| Ffurflenni cymeradwyo llwybr carlam | Cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol yn uniongyrchol. I'w lawrlwytho o'n gwefan |
| Sgrin Glyfar / Smart | **www.smartscreen.co.uk** |

Mae'r Pecyn asesu wedi'i warchod gan gyfrinair; mae'r cyfrinair ar gael ar Walled Garden.

# 3 Gofynion y ganolfan

Dim ond sefydliadau cymeradwy all gynnig cymwysterau City & Guilds. Cyfeirir at sefydliadau a gymeradwyir gan City & Guilds fel canolfannau.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prosesau cymeradwyo i Ganolfannau gynnig y cymwysterau hyn ac unrhyw adnoddau y bydd eu hangen ar Ganolfannau i gynnig y cymwysterau gan gynnwys gofynion sy'n benodol i gymwysterau ar gyfer staff y Ganolfan.

Rhaid i ganolfannau fodloni set o feini prawf ansawdd gan gynnwys:

- darparu adnoddau digonol, yn gorfforol ac yn ddynol
- systemau gwybodaeth rheoli clir
- gweithdrefnau asesu a sicrhau ansawdd effeithiol gan gynnwys cefnogaeth i ymgeiswyr a systemau cofnodi dibynadwy.

## 3.1 Canolfannau newydd i gymwysterau City & Guilds yn y maes pwnc hwn

Rhaid i sefydliad nad yw wedi cynnig cymwysterau City & Guilds o'r blaen wneud cais am gymeradwyaeth i fod yn ganolfan. Gelwir hyn yn broses cymeradwyo canolfannau (PAC). Mae angen cymeradwyaeth ar ganolfannau hefyd i gynnig cymhwyster penodol. Gelwir hyn yn broses cymeradwyo cymwysterau (QAP), (a elwid gynt yn gymeradwyaeth cynllun). Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, rhaid i sefydliadau nad ydynt eisoes yn ganolfannau City & Guilds wneud cais am gymeradwyaeth canolfannau a chymwysterau ar yr un pryd. Dim ond ar gyfer cymeradwyo cymwysterau ar gyfer y cymwysterau penodol hyn y bydd angen i ganolfannau presennol City & Guilds wneud cais.

Rhoddir manylion llawn y gweithdrefnau a'r ffurflenni ar gyfer gwneud cais am gymeradwyaeth canolfan a chymwysterau yn *Darparu Cymwysterau City & Guilds - canllaw i gymeradwyo canolfannau a chymwysterau* sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan City & Guilds.

Bydd swyddfeydd rhanbarthol/cenedlaethol yn cefnogi canolfannau newydd ac yn penodi Ymgynghorydd Systemau Ansawdd i arwain y ganolfan drwy'r broses gymeradwyo. Byddant hefyd yn rhoi manylion y ffioedd perthnasol ar gyfer cymeradwyo.

Ni ddylid cynnal asesiadau hyd nes y ceir cymeradwyaeth cymhwyster.

Mae City & Guilds yn cadw'r hawl i dynnu cymhwyster neu gymeradwyaeth canolfan yn ôl am resymau dyled, camarfer neu ddiffyg cydymffurfio â pholisïau, rheoliadau, gofynion, gweithdrefnau a chanllawiau City & Guilds, neu am unrhyw reswm a allai fod yn niweidiol i gynnal cymwysterau awthentig, dibynadwy a dilys neu a allai amharu ar enw City & Guilds.

Ceir rhagor o fanylion am y rhesymau dros atal a thynnu'n ôl, gweithdrefnau ac amserlenni, yn *Darparu Cymwysterau City & Guilds*.

## 3.2 Canolfannau sydd eisoes yn cynnig cymhwyster City & Guilds yn y maes pwnc hwn

Gall canolfannau a gymeradwywyd i gynnig 6903 City & Guilds Diplomâu mewn Therapi Harddwch, NVQ Lefel 2 mewn Therapi Harddwch neu Wasanaethau Ewinedd (3023/3024) wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer Dyfarniadau/ Tystysgrifau/ Diplomâu Lefel 2 City & Guilds mewn Therapi Harddwch gan ddefnyddio'r ffurflen cymeradwyo llwybr carlam, sydd ar gael o wefan City & Guilds – www.cityandguilds.com.

- ar yr amod na fu unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y cymwysterau eu darparu, ac
- os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymeradwyo a bennir yn nodiadau cyfarwyddyd y ffurflen llwybr carlam.

Mae cymeradwyaeth llwybr carlam ar gael am 12 mis o lansio'r cymhwyster. Ar ôl yr amser hwn, mae'r cymhwyster yn ddarostyngedig i'r broses cymeradwyo cymwysterau safonol. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod cymeradwyaeth llwybr carlam yn dal i fod yn gyfredol ar adeg y cais.

## 3.3 Gofynion adnoddau

### Adnoddau ffisegol

Rhaid i ganolfannau gael mynediad i'r ystod o wasanaethau, cynhyrchion proffesiynol, offer, deunyddiau a chyfarpar yn y ganolfan neu'r gweithle i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i gwmpasu'r holl weithgareddau ymarferol.

Rhaid i'r offer fodloni safonau'r diwydiant a gallu cael eu defnyddio o dan amodau gwaith arferol.

### Defnyddio efelychiad (bloc pen a rhannau ffug o'r corff)

O fis Medi 2012 gall defnyddio blociau pen a rhannau ffug o'r corff ar gyfer asesiad crynodol gael ei ddefnyddio ar gyfer yr unedau canlynol **yn unig**.

- Uned Lefel 2 – Pyrmio a Niwtraleiddio Gwallt
- Uned Lefel 2 – Celf Lliwio Gwallt
- Uned Lefel 2 – Darparu Celf Ewinedd
- Uned Lefel 3 – Dylunio a gosod Celf Ewinedd
- Uned Lefel 3 – Pyrmio i greu amrywiaeth o olygon

Ni ddylid defnyddio efelychiad ar gyfer yr unedau hyn ond ar ôl i'r defnydd o fodelau, cydweithwyr a chleientiaid gael ei ddihysbyddu (byddai'r math gorau o asesu bob amser ar berson go iawn, gan fod hwn yn gymhwyster paratoi ar gyfer cyflogaeth). **Os yw bloc pen neu ran ffug o'r corff wedi'i ddefnyddio mewn asesiad crynodol, yna mae angen i'r Asesydd gofnodi hyn.**

### Gofynion yr amgylchedd dysgu realistig (ADR / RLE)

Rhaid asesu pob VRQ City & Guilds mewn cyfleusterau sy'n bodloni safonau derbyniol, cyfredol y diwydiant ar gyfer y maes cymwysterau penodol. Mae rhestri adnoddau enghreifftiol yn cael eu datblygu ar gyfer pob maes cymhwyster.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod mynediad i'r ystod o wasanaethau neu driniaethau a chynhyrchion, offer, deunyddiau ac offer proffesiynol gofynnol yn cael ei gynnal yn y ganolfan a / neu yn y gweithle i ddiwallu anghenion y cymhwyster ac i alluogi ymgeiswyr i gwmpasu'r holl weithgareddau ymarferol gofynnol.

Dylai'r lleoliad dysgu ac asesu gynnwys amgylchedd dysgu gwirioneddol, neu efelychiadol ond realistig. Rhaid i'r cyfleusterau hyn roi profiad i ymgeiswyr o weithio mewn ac o dan amodau masnachol realistig yn ystod yr asesiad.

Rhaid i'r amgylchedd dysgu fodloni unrhyw is-ddeddfau, deddfwriaeth neu ofynion awdurdod cyfreithiol a fyddai'n effeithio ar sefydliad masnachol tebyg yn ogystal â bodloni gofynion sefydliad addysg alwedigaethol.

At ddibenion VRQau City& Guilds diffinnir **cleientiaid** fel pobl sy'n ceisio'r gwasanaeth neu'r driniaeth sy'n cael ei hasesu, a all gynnwys ffrindiau, cyfoedion, modelau ac aelodau o'r teulu. Nid yw'n ofynnol i'r cleientiaid hyn dalu.

Rhaid darparu man addas a reolir ar gyfer prawf a rhaid gwneud trefniadau ar gyfer storio deunyddiau a chofnodion asesu yn ddiogel. Rhaid cynnal cyfleusterau derbyniol ar gyfer profion ar-lein Evolve lle mae'r VRQ yn gofyn am brofi gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein.

**Staff y ganolfan**
Rhaid i staff y ganolfan fodloni'r gofynion o ran arbenigedd galwedigaethol ar gyfer y cymwysterau hyn. Rhaid i gydlynwyr ac aseswyr sicrhau ansawdd:

1. Meddu ar brofiad a chymhwysedd dilysadwy a pherthnasol yn y diwydiant cyfredol neu real o'r maes gwaith galwedigaethol ar y lefel sy'n cael ei hasesu neu uwchlaw hynny a meddu ar dystiolaeth o ansawdd profiad galwedigaethol er mwyn sicrhau hygrededd y dyfarniadau asesu. Bydd tystiolaeth briodol yn cynnwys:
    - curriculum vitae a geirda
    - cyflawni cymhwyster perthnasol
    - datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

2. asesu yn eu maes cydnabyddedig o gymhwysedd galwedigaethol yn unig

3. cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus

4. bod yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu cywir: argymhellir, ond **nid** yw'n orfodol, bod aseswyr yn meddu ar Ddysgu a Datblygu uned A1; neu feddu ar unedau D32 a D33 ac asesu i safon A1.

Rhaid i'r rhai sy'n sicrhau ansawdd mewnol (SAMau / IQAs – a elwid gynt yn GM /IVs) ac aseswyr fod â phrofiad a chymhwysedd **cyfredol** dilysadwy a pherthnasol yn y diwydiant yn y maes gwaith galwedigaethol ar neu uwchlaw'r lefel sy'n cael ei hasesu, a thystiolaeth o ansawdd **profiad galwedigaethol** er mwyn sicrhau hygrededd y dyfarniadau asesu. Rhaid i drinwyr gwallt, barbwyr, therapyddion, artistiaid colur a thechnegwyr ewinedd sydd newydd gymhwyso fod wedi cael profiad masnachol ôl-gymhwyso sylweddol cyn dechrau'r rolau hyn. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni all y rhai nad oes ganddynt brofiad galwedigaethol asesu'r VRQau hyn. Bydd tystiolaeth briodol yn cynnwys CV, Geirda, Tystysgrifau Cymhwyster, cofnodion DPP, Tystiolaeth Cynnyrch, Tystiolaeth Fideo. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol

a gellir ystyried dulliau perthnasol eraill. Cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Cymwysterau am arweiniad.

i. Dim ond yn eu maes cymhwysedd galwedigaethol cydnabyddedig y caiff staff asesu neu sicrhau ansawdd.

ii. Rhaid i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi perthnasol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus (gweler gofynion DPP).

Rhaid i aseswyr a swyddogion sicrhau ansawdd y VRQau fod yn gymwys ac yn brofiadol wrth wneud penderfyniadau asesu cywir; argymhellir yn gryf felly bod y cymwysterau asesydd a sicrhau ansawdd wedi'u cael neu y gweithir tuag atynt. Argymhellir yn gryf bod aseswyr VRQ newydd yn gweithio tuag at neu'n meddu ar naill ai'r uned A1 Dysgu a Datblygu neu'r uned TAQA berthnasol.

**Gofynion yr asesydd a'r gwiriwr**

Er bod unedau'r Asesydd/Gwiriwr (A/G / A/V) yn cael eu gwerthfawrogi fel cymwysterau ar gyfer staff y ganolfan, nid ydynt yn ofynnol ar gyfer y cymwysterau ar hyn o bryd.

**Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) mewn VRQau**

Ar gyfer VRQau City & Guilds, rhaid i staff y ganolfan barhau i fodloni'r gofynion ar gyfer arbenigedd galwedigaethol ar gyfer y cymhwyster(cymwysterau) penodol y maent yn eu hasesu neu'n sicrhau eu hansawdd.

Rhaid i aseswyr a sicrhawyr ansawdd allu dangos sut y maent yn diweddaru eu sgiliau technegol a'u gwybodaeth ac i'r lefel alwedigaethol y maent yn ei hasesu a/neu'n sicrhau ansawdd ynddynt.

Rhaid i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ddigwydd drwy gydol gyrfaoedd aseswyr a sicrhawyr ansawdd,

**Rhaid** i hyn gynnwys cwblhau isafswm o **30 awr** DPP ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis gan ddefnyddio gweithgareddau a gymeradwywyd ar gyfer DPP nad oes rhaid iddynt fod yn olynol. (gweler isod).

Rhaid i'r gofyniad DPP gael ei wneud ar **un neu gyfuniad o'r** mathau o weithgareddau a restrir isod. **Ni fydd unrhyw weithgaredd yn cario lwfans 'oriau dwbl'.**

- darparu gwasanaethau/triniaethau perthnasol yn ymarferol i gleientiaid sy'n talu ffioedd mewn salon masnachol y gellir dangos eu bod yn datblygu lefelau sgiliau a gwybodaeth unigol
- ymgymryd â hyfforddiant technegol sy'n datblygu sgiliau a/neu lefelau gwybodaeth newydd a/neu'n eu diweddaru
- cymwysterau perthnasol pellach.

**Ni fydd** y gweithgareddau canlynol yn cyfrif tuag at DPP:

- darllen y wasg a llyfrau masnach
- gwrando ar dapiau a gwylio DVDau .

Rhaid i unigolion ddarparu tystiolaeth berthnasol ac addas bod DPP wedi digwydd o fewn pob cyfnod o 12 mis i'w fesur o 1 Medi - 31 Awst.

**CYFRIFO ORIAU DPP**

a) Caiff DPP ar gyfer aseswyr presennol a sicrhawyr ansawdd ei fesur o fewn pob cyfnod o 12 mis, a gymerir rhwng 1 Medi a 31 Awst bob blwyddyn.

b) Bydd oriau DPP ar gyfer aseswyr newydd a sicrhawyr ansawdd yn cael eu mesur o'r dyddiad y bydd eu dyletswyddau'n dechrau.

c) Bydd aseswyr a swyddogion sicrhau ansawdd sy'n cymryd absenoldeb o ddyletswyddau asesu neu sicrhau ansawdd yn ystod unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn gallu casglu DPP pro rata.

ch) Bydd yr oriau DPP ar gyfer aseswyr rhan-amser a sicrhawyr ansawdd yn cael eu cyfrifo pro rata yn seiliedig ar wythnos dybiedig o 37 awr. **Fodd bynnag, rhaid i o leiaf 5 awr o DPP mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis gael ei wneud gan bob asesydd rhan-amser a'r sicrhawyr ansawdd.**

**Er enghraifft**, asesydd wedi'i gontractio am 7 awr/wythnos : 7 ÷ 37 x 100 = tua 20% o asesydd amser llawn. 20% x 30 awr = 6 awr DPP mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

d) Mae amser tybiedig o 30 awr am bob uned dechnegol a gyflawnwyd wedi'i bennu, waeth beth fo'r uned.

dd) Os ydych yn asesydd **ac** yn sicrhau ansawdd, dim ond o leiaf 30 awr DPP y mae'n rhaid i chi ei wneud, **nid** 60 awr.

## 3.4 Gofynion mynediad ymgeiswyr

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'r cymwysterau hyn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

## 3.5 Sicrhau ansawdd

Rhaid bod gan ganolfannau cymeradwy systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau'r ddarpariaeth a'r asesiad optimwm o gymwysterau. Darperir manylion llawn a chanllawiau ar y gofynion a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn Safonau Archwilio Asesu'r Ganolfan - Centre Assessment Standards Scrutiny (CASS), rhan H2 o Amodau Cyffredinol Ofqual. *Am ragor o wybodaeth ar* CASS a phrosesau Sicrhau Ansawdd City and Guilds ewch i: What is CASS? a dogfennau Quality Assurance Standards ar wefan City & Guilds.

### Sicrhau ansawdd mewnol

Mae canolfannau angen Cael systemau ansawdd effeithiol i sicrhau darpariaeth ac asesiadau gorau posib o'r cymwysterau.

Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyaeth gychwynnol i ganolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol, ac mae City & Guilds yn gyfrifol am sicrhau ansawdd allanol.

Mae manylion llawn ac arweiniad ar ofynion a gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol ar gael yn *Providing City & Guilds Qualifications*. Mae'r dogfen hwn hefyd yn esbonio'r tasgau, gweithgareddau a chyfrifoldebau ar gyfer staff sicrhau ansawdd.

### Sicrhau ansawdd allanol

Penodir dilyswyr allanol gan City & Guilds i gymeradwyo canolfannau, ac i fonitro'r asesiad a sicrhau ansawdd mewnol a gynhelir gan ganolfannau. Mae gwiriad allanol yn cael ei wneud i sicrhau bod dilysrwydd, dibynadwyedd ac arfer da mewn canolfannau.

Er mwyn cyflawni eu rôl sicrhau ansawdd, rhaid i wirwyr/safonwyr allanol fod â gwybodaeth ac arbenigedd galwedigaethol a gwirio priodol. Mae gwirwyr allanol City & Guilds yn mynychu hyfforddiant a datblygiad a gynlluniwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, i hwyluso safoni rhwng gwirwyr ac i rannu arfer da.

**Gwirwyr allanol**

Rôl y gwiriwr allanol yw:

- rhoi cyngor a chefnogaeth i staff canolfannau
- sicrhau ansawdd a chysondeb asesiadau o fewn a rhwng canolfannau drwy ddefnyddio samplu systematig
- ymweld â chanolfannau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fodloni meini prawf cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
- rhoi adborth i ganolfannau ac i City & Guilds.

Bydd sicrhau ansawdd allanol ar gyfer y cymwysterau yn cael ei ddarparu gan broses sicrhau ansawdd arferol City & Guilds.

Rhoddir rhagor o fanylion am rôl gwirwyr allanol yn *Darparu Cymwysterau City & Guilds.*

## 3.6 Cofrestru ac ardystio

Darperir manylion llawn gweithdrefnau gweinyddol City & Guilds ar gyfer y cymwysterau hyn ar-lein i ganolfannau cofrestredig City & Guilds drwy'r Walled Garden. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys manylion am:

- cofrestru
- rhifau cofrestru
- ffioedd
- mynediad i arholiadau
- ardystio

Mae'r manylion hyn hefyd ar gael ar y Walled Garden.

Dylai canolfannau ddilyn yr holl ganllawiau'n ofalus, yn enwedig gan nodi bod dyddiadau olaf ffioedd, cofrestru ac ardystio ar gyfer y cymwysterau yn agored i newid.

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol o gyfyngiadau amser o ran y cyfnodau cofrestru ac ardystio ar gyfer y cymwysterau, a bennir  yn Walled Garden City & Guilds.

# 4 Cynllunio a chyflwyno'r cwrs

### Strategaethau cyflawni a argymhellir

Dylai staff y ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymwysterau cyn cynllunio rhaglen cwrs.

Yn benodol, dylai staff ystyried y sgiliau a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Cyn belled â bod y gofynion ar gyfer y cymhwyster yn cael eu bodloni, gall canolfannau gynllunio rhaglenni astudio cyrsiau mewn unrhyw ffordd y teimlant sy'n diwallu anghenion a galluoedd eu hymgeiswyr orau. Efallai y bydd canolfannau am gynnwys pynciau fel rhan o raglen y cwrs, na fyddant yn cael eu hasesu drwy'r cymwysterau.

### Perthynas â chymwysterau eraill a chwricwlwm ehangach

Mae City & Guilds yn argymell bod canolfannau'n mynd i'r afael â'r cwricwlwm ehangach, lle bo hynny'n briodol, wrth ddylunio a chyflwyno'r cwrs. Dylai canolfannau hefyd ystyried cysylltiadau â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Sgiliau Allweddol/Craidd a chymwysterau cysylltiedig eraill.

Darperir y tablau perthynas canlynol i gynorthwyo canolfannau i gynllunio a chyflwyno'r cymwysterau:

- mae’r berthynas i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i'w gweld yn Atodiad 1
- mae cyfleoedd i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol wrth gyflwyno'r cymwysterau wedi'u nodi, a gellir eu gweld yn Atodiad 3.

### Iechyd a diogelwch

Mae'r gofyniad i ddilyn arferion gweithio diogel yn rhan annatod o holl gymwysterau ac asesiadau City & Guilds, a chyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol ar waith cyn i ymgeiswyr ddechrau asesiadau ymarferol.

Os bydd ymgeisydd yn methu â dilyn arferion a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn ystod asesiad (er enghraifft, asesiad ymarferol, aseiniad) rhaid rhoi'r gorau i'r asesiad a rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y rhesymau pam. Dylid hysbysu'r ymgeisydd ei fod wedi methu'r asesiad. Gall ymgeiswyr ailsefyll yr asesiad yn ddiweddarach, yn ôl disgresiwn y ganolfan. Mewn unrhyw achosion o amheuaeth, dylid ceisio arweiniad gan y gwiriwr allanol.

### Diogelu data a chyfrinachedd

Efallai y bydd angen i ganolfannau sy'n cynnig y cymwysterau hyn ddarparu data personol i City & Guilds ar gyfer staff ac ymgeiswyr. Esbonnir canllawiau ar ddiogelu data a rhwymedigaethau City & Guilds a chanolfannau yn *Darparu Cymwysterau* City & Guilds.

### Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu

Bydd angen i ganolfannau wneud asesiad cychwynnol o bob ymgeisydd cyn dechrau eu rhaglen er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofrestru ar gyfer math a lefel briodol o gymhwyster.

Dylai'r asesiad cychwynnol nodi unrhyw anghenion hyfforddi penodol sydd gan yr ymgeisydd, a'r gefnogaeth a'r arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymwysterau.

Mae City & Guilds yn argymell bod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu i sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall yn llawn ofynion y cymwysterau y byddant yn gweithio tuag atynt, eu cyfrifoldebau fel ymgeiswyr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cofnodi'r wybodaeth ar gontract dysgu.

**Cyfleoedd cyfartal**

Mae'n ofynnol i ganolfannau gymeradwyo bod gan ganolfannau bolisi cyfle cyfartal (gweler *Darparu Cymwysterau* Dinas a Guilds).

Mae'r awdurdodau rheoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i City & Guilds fonitro canolfannau er mwyn sicrhau bod polisïau cyfle cyfartal yn cael eu dilyn.

Mae polisi cyfle cyfartal City & Guilds wedi'i nodi ar wefan City & Guilds, yn *Darparu Cymwysterau* City & Guilds, yn y *Cyfeirlyfr Cymwysterau,* ac mae hefyd ar gael gan adran Cysylltiadau Cwsmeriaid City & Guilds.

**Mynediad at asesiad**

Mae canllawiau a rheoliadau City & Guilds ar fynediad at asesiadau wedi'u cynllunio i hwyluso mynediad at asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys i gael addasiadau i drefniadau asesu. Mae trefniadau mynediad wedi'u cynllunio i ganiatáu dangos cyrhaeddiad. I gael rhagor o wybodaeth, gweler *Mynediad at asesiadau a chymwysterau*, sydd ar gael ar wefan City & Guilds.

**Apeliadau**

Rhaid i ganolfannau gael eu gweithdrefn apelio archwiliadwy eu hunain, y mae'n rhaid eu hesbonio i ymgeiswyr yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Rhaid i apeliadau gael eu dogfennu'n llawn gan y cydgysylltydd sicrhau ansawdd a sicrhau eu bod ar gael i'r gwiriwr allanol neu City & Guilds.

Ceir rhagor o wybodaeth am apeliadau yn *Darparu Cymwysterau City & Guilds.* Mae gwybodaeth apelio hefyd ar gyfer canolfannau a dysgwyr ar wefan City & Guilds neu ar gael gan yr adran Cysylltiadau Cwsmeriaid.

# 5 Asesu

**Asesiadau E-volve yn seiliedig ar wybodaeth**

Ni fydd asesiadau gwybodaeth ar ffurf papur ar gael mwyach ar gyfer dysgwyr o 1af o Fedi 2024 ymlaen ar gyfer unedau ble ceir asesiadau ar-lein e-volve. Ble mae uned gydag aseiniadau ar bapur ar gyfer aseiniadau gwybodaeth yn unig, bydd y rhain yn aros.

O'r dyddiad hwn bydd asesiadau arlein e-volve (rhifau cydran 500/600/700) angen eu cwblhau ar gyfer yr unedau priodol – gwelir y tabl asesu isod am ragor o wybodaeth.

Ar ôl 1af o Fedi 2024, i gadarnhau cyflawniad cywir o asesiadau gwybodaeth e-volve, mae'r gydran briodol 000 'Cadarnhad o gwblhau asesiadau e-volve' (gwelir isod) angen cael eu rhoi ar Walled Garden gan ddarparwyr, yn ogystal â'r canlyniadau ar gyfer asesiadau ymarferol.

**O.N. –** Gellir hawlio asesiadau ar bapur a chwblhawyd gan ddysgwyr cyn 1af o Fedi 2024 o fewn cyfnod cofrestru'r dysgwr (y 000 priodol 'Cadarnhad o gwblhau'r asesiad e-volve' angen ei hawlio).

**<u>Cadarnhad o rifau cydran i gwblhau asesiad e-volve assessment completion' component numbers</u>**

| Teitl | Rhif cydran |
|---|---|
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Therapi Harddwch (3003-40) | 001 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Colur (3003-43) | 002 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Technoleg Ewinedd (3003-49) | 003 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwasanaethau Therapi Harddwch + Evolve (3003-60) | 006 |
| Lefel 2 Diploma mewn Therapi Harddwch + Evolve (3003-63) | 007 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwelliannau Technoleg Ewinedd + Evolve (3003-65) | 008 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwallt a Cholur y Cyfryngau + Evolve (3003-66) | 009 |
| | |
| **Cyfres 3003-92** | |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwasnaethau Therapi Harddwch | 015 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Harddwch | 016 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwasanaaethau Technoleg Ewinedd | 017 |
| Lefel 2 Diploma mewn Therapi Harddwch | 018 |

| | |
|---|---|
| Lefel 2 Diploma mewn Ymgynghoriaeth Harddwch | 019 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwelliannau Technoleg Ewinedd | 020 |
| Lefel 2 Diploma mewn Gwallt a Cholur y Cyfryngau | 021 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasnaethau Therapi Harddwch | 022 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Harddwch | 023 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Gwasnaethau Technoleg Ewinedd | 024 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Colur | 025 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Technegau Cwyr | 026 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Triniaeth y Wyneb | 027 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Triniaeth Blew Amrant ac Aeliau | 028 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Trin Dwylo | 029 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Trin Traed | 030 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Technoleg Ewinedd | 031 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Celf Ewinedd | 032 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Tyllau Clust | 033 |
| Lefel 2 Tystysgrif mewn Derbynfa Salon Harddwch | 034 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Colur | 035 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Technegau Cwyr | 036 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Gofal Croen yr Wyneb | 037 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Triniaethau Blew Amrant ac Aeliau | 038 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin Dwylo | 039 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Trin Traed | 040 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Celf Ewinedd | 041 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Technoleg Ewinedd | 042 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Tyllau Clust | 043 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Sector Gwallt a Harddwch | 044 |
| Lefel 2 Dyfarniad mewn Edafu | 045 |

Mae'r asesiadau crynodol ar gyfer y cymwysterau yn gofyn ar yr ymgeiswyr i gwblhau:

- Tasgau ymarferol, a
- Gwybdoaeth a dealltwriaeth o brawf ar-lein.

| Teitl | Dull Asesu | Ble i ddod o hyd i'r deunyddiau asesu |
|---|---|---|
| Uned 201<br>Gweithio mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch | **Prawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 202<br>Dilyn ymarfer iechyd a diogelwch yn y salon | **Prawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 203<br>Gofal cleient a chyfathrebu mewn diwydiannau gysylltiedig â harddwch | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 204<br>Darparu gofal croen y wyneb | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 205<br>Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau i gleientiaid mewn salon | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 206<br>Tynnu gwallt gan ddefnyddio technegau cwyr | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 207<br>Darparu triniaethau dwylo | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 208<br>Darparu triniaethau traed | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein | **www.cityandguilds.com** |

| | | |
|---|---|---|
| | gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | |
| Uned 209<br>Gwneud Colur | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 210<br>Darparu triniaethau blew Amrant ac Aeliau | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 211<br>Cyfarwyddyd ar wneud colur | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 212<br>Creu delwedd ar thema o fewn y sector gwallt a harddwch | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 213<br>Arddangos stoc i hyrwyddo gwerthiant mewn salon | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 214<br>Darparu a chynnal gwelliant ewinedd | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 215<br>Darparu celf ewinedd | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 216<br>Dyletswyddau derbynfa salon | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 217<br>Gwneud tyllau clystiau | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |

| | | |
|---|---|---|
| Uned 218<br>Pyrmio amrantiaid | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 219<br>Darparu gwasanaethau edafu i dynnu gwallt | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 220<br>Y celfyddyd o golur ffotograffiaeth | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 221<br>Dylunio celf corff | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 222<br>Tylino pen | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 223<br>Rhoi technegau lliw haul croen | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 224<br>Gofal wyneb ar gyfer dynion | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 225<br>Siapio a lliwio aeliau | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 226<br>Y celfyddyd o liwio gwallt | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |

| | | |
|---|---|---|
| Uned 227<br>Y celfyddyd o wisgo'r gwallt | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 229<br>Darparu thrapi thermol clyw | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |
| Uned 310<br>Gwneud a steilio ychwanegiad gwallt | **Tasgau ymarferol a phrawf atebion byr** – prawf ar-lein gwybodaeth a dealltwriaeth ar Evolve | **www.cityandguilds.com** |

Mae'r asesiadau crynodol ar gyfer y cymwysterau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr ymgymryd â:

- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn aseiniad neu brawf ar-lein.

DS Gall ymgeiswyr ddefnyddio naill ai'r profion ar-lein neu dasgau gwybodaeth yn yr aseiniadau. **Nid** yw'n ofynnol i ddysgwyr ymgymryd â'r ddau ar gyfer uned, ond gallant ddefnyddio cyfuniad i gyflawni'r cymhwyster.

**Aseiniadau**

Cyfeiriwch at y Pecyn Asesu am fanylion y tasgau ymarferol a gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer cymwysterau Lefel 2.

**Profion ar-lein (Evolve)**

Mae City & Guilds wedi cynhyrchu profion ar-lein ar gyfer pob uned i gwmpasu'r gofynion asesu gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r asesiadau ar-lein ar gael trwy'r system Asesu Ar-lein Fyd-eang (Evolve) Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i ddod yn ganolfan Evolve ar ein gwefan http://www.cityandguilds.com.

I gofrestru eich ymgeiswyr ar y cymhwyster ac Evolve, mae'n bwysig defnyddio'r rhif cywir. Cyfeiriwch at y Walled Garden ar gyfer y rhifau hyn. Mae'n bwysig cofio, unwaith y bydd ymgeisydd wedi cofrestru ar y cymhwyster (gan gynnwys Evolve), bod hyblygrwydd i ddefnyddio naill ai Evolve neu'r tasgau gwybodaeth yn yr aseiniadau.  Mae cyfuniad o'r ddau yn dderbyniol.

Mae'n ofynnol i ganolfannau sefydlu proffil Evolve er mwyn cynnig arholiadau ar-lein i ddysgwyr. Mae sefydlu proffil Evolve yn broses syml nad oes angen ei chwblhau ond unwaith gan y ganolfan. Mae manylion am sut i sefydlu proffil a gofynion technegol Evolve ar gael ar y City & Guilds (www.city-and-guilds.com / gola). Mae gan adran Evolve o'r wefan hefyd fanylion llinell gymorth Evolve ar gyfer ymholiadau technegol a lawrlwythiadau ar gyfer canolfannau ac ymgeiswyr am arholiadau Evolve.

**Amserau gwasanaeth / triniaeth mewn VRQau**

Nid yw amserau'r gwasanaeth mewn VRQau wedi'u nodi'n gyffredinol; fodd bynnag, mae amcan cyffredinol 'paratoi ar gyfer gwaith' VRQau City & Guilds yn mynnu y dylid cwblhau pob asesiad ymarferol, oni nodir yn benodol, o fewn amserau sy'n dderbyniol yn fasnachol sy'n berthnasol i lefel y cymhwyster dan sylw.

Gellir defnyddio uchafswm amserau gwasanaeth perthnasol N/SVQ fel canllaw, er na ddylid defnyddio’r rhain yn llym. Dylai aseswyr ddefnyddio eu disgresiwn proffesiynol, yn enwedig ar gyfer sefyllfaoedd lle byddai ffactorau cleientiaid yn gofyn am amser ychwanegol mewn ymarfer masnachol arferol.

Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws aseswyr dylai canolfannau ddatblygu uchafswm amserau gwasanaeth y cytunwyd arnynt i'w defnyddio yn eu canolfan.

**Rhestr termau a nodiadau canllaw:**

*Hyfforddiant technegol* - gellir defnyddio gweithdai a sesiynau hyfforddi allanol a mewnol.

*Salon masnachol* - diffinnir hyn fel salon lle mae'r rhan fwyaf o steilwyr/therapyddion eisoes wedi cymhwyso ac **nad** hyfforddiant ac asesu yw prif swyddogaeth y salon.  Os caiff salon hyfforddi mewn canolfan ei gau a'i ailagor fel salon masnachol e.e. yn ystod gwyliau, yna mae hwn yn lleoliad derbyniol i DPP gael ei gynnal.

*Gwaith cymhwyster* - nod yr opsiwn hwn yw annog aseswyr a sicrhawyr ansawdd i ennill gwybodaeth a sgiliau newydd.   Rhaid i waith a wneir ar gyfer yr opsiwn hwn arwain at gymhwyster achrededig a asesir yn ffurfiol.

Gellir hawlio 30 awr ar ôl ennill unrhyw gymhwyster uned dechnegol mewn unrhyw un flwyddyn DPP.

# 6 Unedau

Mae'r cymwysterau'n cynnwys nifer o **unedau**. Mae **uned** yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan ymgeisydd mewn agweddau penodol ar ei swydd.

Rhennir pob uned yn **ganlyniadau dysgu** sy’n disgrifio'n fanylach y sgiliau a'r wybodaeth y dylai ymgeisydd feddu arnynt.

Mae gan bob **canlyniad dysgu** set o **feini prawf asesu** (perfformiad, a gwybodaeth a dealltwriaeth) sy'n nodi'r meini prawf dymunol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dweud bod unigolyn wedi perfformio i'r safon y cytunwyd arni.

Mae datganiadau **cwmpas** yn diffinio ehangder neu gwmpas **canlyniad dysgu** a'i **feini prawf asesu** drwy nodi'r amgylchiadau amrywiol ar gyfer eu defnyddio.

**Strwythur unedau**

Mae'r unedau yn y cymwysterau hyn wedi'u hysgrifennu mewn fformat safonol ac maent yn cynnwys y canlynol:

- teitl
- cyfeirnod uned
- rhesymeg, nod ac unrhyw ofynion mynediad (lle nodir)
- rhestr o ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned
- datganiad o oriau dysgu dan arweiniad
- cysylltiadau â chymwysterau eraill, e.e. SGC
- manylion asesu
- canlyniadau dysgu yn fanwl, wedi’u mynegi fel sgiliau ymarferol a gwybodaeth sylfaenol.

# Uned 201 Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch

**Lefel:** 2
**Gwerth credyd:** 4
**Rhif NDAQ:** T/601/5642

**Nod yr uned**

Uned paratoi ar gyfer gwaith yw hon sy'n seiliedig ar allu a gwybodaeth.

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o'r gofynion ar gyfer gweithio yn y diwydiannau cysylltiedig â harddwch.

**Canlyniadau Dysgu**

Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:

1. Gwybod nodweddion allweddol y diwydiannau cysylltiedig â harddwch
2. Gwybod yr arferion gweithio cysylltiedig â'r diwydiannau cysylltiedig â harddwch

**Oriau dysgu dan arweiniad**

Argymhellir y dylid neilltuo **31** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**

Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**

Asesir yr uned hon drwy:

- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 201 Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch

## Canlyniad 1 Gwybod nodweddion allweddol y diwydiannau cysylltiedig â harddwch

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. cyrchu **ffynonellau gwybodaeth** am sefydliadau, gwasanaethau, rolau galwedigaethol, cyfleoedd addysg a hyfforddiant yn y diwydiannau harddwch.

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. nodi'r mathau o sefydliadau o fewn y diwydiannau cysylltiedig â harddwch
2. nodi'r **prif wasanaethau** sy'n cael eu cynnig gan y diwydiannau cysylltiedig â harddwch
3. disgrifio **rolau galwedigaethol** o fewn y diwydiannau cysylltiedig â harddwch
4. nodi **nodweddion cyflogaeth** gweithio yn y diwydiannau cysylltiedig â harddwch
5. disgrifio'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant o fewn y diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch
6. disgrifio'r cyfleoedd i drosglwyddo i sectorau neu ddiwydiannau eraill
7. nodi'r brif **ddeddfwriaeth** sy'n effeithio ar ddiwydiannau cysylltiedig â harddwch
8. disgrifio **egwyddorion sylfaenol cyllid a gwerthu** o fewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch
9. disgrifio'r prif **ffurfiau o farchnata a chyhoeddusrwydd** sy'n cael eu defnyddio gan ddiwydiannau cysylltiedig â harddwch.

**Cwmpas**

**Ffynonellau gwybodaeth**

Rhyngrwyd, cyfnodolion, Habia, darparwyr hyfforddiant, colegau addysg bellach, cyrff dyfarnu, cyngor gyrfa

**Sefydliadau**

Gwneuthurwyr, salonau, sbas iechyd, gwestai, llongau mordeithio, darparwyr ffitrwydd a hamdden, sefydliadau aelodaeth proffesiynol, cyflenwyr, cyrff arweiniol y diwydiant

**Prif wasanaethau**

triniaethau dwylo, triniaethau traed, triniaethau cwyro, strwythurau ewinedd artiffisial, colur, triniaethau wyneb sylfaenol, triniaeth wyneb drydanol, triniaethau diblisgo, triniaethau blew amrant ac aeliau, tylino corff, aromatherapi, tylino, adweitheg, therapi gwres a dŵr, therapi cerrig poeth, tylino pen Indiaidd, triniaethau corff trydanol, lapio corff, triniaethau lliw haul

**Rolau galwedigaethol**

Therapydd harddwch, artist colur, trydanydd, technegydd ewinedd, trinydd dwylo/traed, tylinwraig/tylinwr, aromatherapydd, adweithegydd, therapydd cyflenwol, ymgynghorydd cosmetig, cynrychiolydd gwerthu, derbynnydd, rheolwr salon, perchennog salon, athro, hyfforddwr

**Priodweddau cyflogaeth**
Llawn amser, rhan amser, llaw rydd, dan gytundeb

**Deddfwriaeth**
Deddfau Cyfle Cyfartal a Gwahaniaethu, Rheoliadau Amser Gwaith, Isafswm Cyflog Cenedlaethol, Deddf Hawliau Cyflogaeth, Deddf Cyflogaeth, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Rheoliadau Hawliau Perfformio, Deddf Diogelu Data, Deddf Disgrifiad Masnach, Deddf Diogelu Defnyddwyr

**Egwyddorion cyllid a gwerthu**
Prisio cynhyrchion a gwasanaethau, delio â thaliadau, gwybodaeth cynnyrch, iaith y corff, camau'r broses werthu - nodi angen, nodi cynnyrch i ddiwallu'r angen, arddangos cynnyrch, goresgyn rhwystrau, cau gwerthiannau

**Ffurfiau o farchnata a chyhoeddusrwydd**
Rhyngrwyd, taflen, erthyglau hyrwyddo mewn cylchgronau a phapurau newydd, gweithgareddau hyrwyddo, nosweithiau agored, sesiynau blasu

# Uned 201 Gweithio mewn diwydiannau cysylltiedig â harddwch

## Canlyniad 2 Gwybod yr arferion gweithio cysylltiedig â'r diwydiannau cysylltiedig â harddwch

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio **arferion gweithio da** yn y diwydiannau cysylltiedig â harddwch
2. nodi pwysigrwydd **cyflwyniad personol** wrth adlewyrchu delwedd broffesiynol wrth weithio yn y diwydiannau cysylltiedig â harddwch
3. disgrifio cyfleoedd ar gyfer datblygu a hyrwyddo eich delwedd broffesiynol eich hun o fewn y diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch
4. nodi **hawliau cyflogaeth** sylfaenol **a chyfrifoldebau cyflogwr**
5. disgrifio pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch.

**Cwmpas**

**Arferion gweithio da**

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), COSHH, dulliau sterileiddio, Deddfwriaeth Iechyd a diogelwch berthnasol

**Cyflwyniad personol**

Esgidiau sodlau isel wedi'u cau'n llawn, gwallt oddi ar wyneb, dim gemwaith heblaw band priodas ac un pâr o stydiau, ewinedd byr glân a rhydd o farnais, troswisg lân ac wedi'i smwddio, teits lliw cnawd

**Hawliau a chyfrifoldebau cyflogaeth**

**Hawliau:** contract cyflogaeth, isafswm cyflog, amgylchedd gweithio diogel.

**Cyfrifoldebau:** Gweithio'n ddiogel i fodloni gofynion salon a chyfreithiol

# Uned 202 Dilyn ymarfer iechyd a diogelwch yn y salon

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **3**
**Rhif NDAQ:** **R/600/8763**

**Nod yr uned**
Uned paratoi ar gyfer gwaith yw hon sy'n seiliedig ar allu a gwybodaeth. Mae'r uned hon yn ymwneud â bod yn ymwybodol o'r risgiau yn y salon, gwybod sut i'w hadnabod a'r cyfrifoldebau i ddelio â nhw.

Mae'r uned hon yn berthnasol i salonau trin gwallt, barbro a harddwch.

**Canlyniadau Dysgu**
Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu cynnal arferion iechyd, diogelwch a diogeled
2. Gallu dilyn gweithdrefnau argyfwng

**Oriau dysgu dan arweiniad**
Argymhellir bod **22** awr o dan arweiniad yn cael eu neilltuo i'r uned hon. Gall hyn fod yn llawn-amser neu'n rhan-amser.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol**
Cysylltir yr uned hon â Therapi Harddwch SGC, uned G20

**Cymeradwyo'r uned gan sector neu gorff priodol arall**
Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**
Asesir yr uned hon drwy:

- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

## Uned 202 Dilyn ymarfer iechyd a diogelwch yn y salon

Canlyniad 1 Gallu cynnal arferion iechyd, diogelwch a diogeledd

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. ymddwyn yn y gweithle i gwrdd ag arferion iechyd a diogelwch a pholisi'r salon
2. delio â **pheryglon** o fewn eich maes cyfrifoldeb gan ddilyn polisi salon
3. cynnal lefel o **gyflwyniad personol**, hylendid ac ymddygiad i fodloni gofynion cyfreithiol a rhai’r salon
4. dilyn salon polisi ar gyfer **diogelwch**
5. sicrhau bod offer, cyfarpar, deunyddiau ac ardaloedd gwaith yn bodloni gofynion hylendid
6. defnyddio **Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)**
7. eu lleoli eu hunain a'r cleient yn ddiogel drwy gydol y gwasanaeth
8. trin, defnyddio a storio cynhyrchion, deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel i gwrdd â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
9. gwaredu pob **math o wastraff salon** yn ddiogel a bodloni gofynion cyfreithiol a rhai'r salon.

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. esbonio'r gwahaniaeth rhwng deddfwriaeth, codau ymarfer a pholisïau gweithle
2. amlinellu prif ddarpariaethau **deddfwriaeth iechyd a diogelwch**
3. nodi **cyfrifoldebau iechyd a diogelwch y gweithwyr a'r cyflogwyr**
4. nodi'r **gwahaniaeth rhwng perygl a risg**
5. disgrifio **peryglon** a all ddigwydd mewn salon
6. nodi'r **peryglon** y mae angen eu hatgyfeirio
7. nodi pwrpas **cyfarpar diogelu personol (PPE)** a ddefnyddir mewn salon yn ystod gwahanol wasanaethau
8. nodi pwysigrwydd **cyflwyniad personol**, hylendid ac ymddygiad wrth gynnal **iechyd a diogelwch** yn y salon
9. nodi pwysigrwydd cynnal diogelwch eiddo
10. amlinellu egwyddorion hylendid a rheoli heintiau
11. disgrifio'r **dulliau a ddefnyddir yn y salon i sicrhau hylendid**
12. disgrifio effeithiolrwydd a chyfyngiadau gwahanol dechnegau rheoli heintiau
    disgrifio sut i waredu gwahanol **fathau o wastraff salon**.

**Cwmpas**

**Peryglon**

(Rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed)

Gwifrau'n llusgo, offer trydanol diffygiol, gollyngiadau, arwynebau llithrig, rhwystrau i fynediad a mynd allan.

**Cyflwyniad personol**

Gwisg, ymddangosiad a hylendid personol

**Diogelwch**
Cofnodion cleientiaid, cofnodion salon, offer salon, eiddo cleientiaid, eiddo staff, cynhyrchion salon, pwynt talu

**Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)**
Ffedogau, menig, masg gronynnau

**Mathau o wastraff salon**
Gwastraff cyffredinol, gwastraff cynhyrchion cemegol, offer miniog, gwastraff halogedig

**Deddfwriaeth Iechyd a diogelwch**
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith, Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles), Rheoliadau Gweithrediadau Trin â Llaw, Rheoli Sylweddau, Rheoliadau Peryglus i Iechyd (COSHH), Rheoliadau Darparu a defnyddio Offer Gwaith, Rheoliadau Trydan yn y Gwaith, Adrodd am anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), Deddf Rhagofalon Tân, Rheoliadau Cymorth Cyntaf Iechyd a Diogelwch, Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Arddangos Sgrin)

**Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch cyflogwyr a gweithwyr**
Cyfarpar gweithio diogel, amgylchedd gweithio diogel, PPE

**Gwahaniaeth rhwng perygl a risg**
Risg yw'r tebygolrwydd o fod perygl yn achosi damwain neu niwed (e.e. anaf)

**Dulliau a ddefnyddir yn y salon i sicrhau hylendid**
Glanweithdra arwynebau, sterileiddio offer a chyfarpar, golchi tywelion a gynau, hylendid personol

# Uned 202 Dilyn ymarfer iechyd a diogelwch yn y salon

## Canlyniad 2 Gallu dilyn gweithdrefnau argyfwng

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. dilyn gweithdrefnau argyfwng
2. dilyn gweithdrefnau adrodd damweiniau sy'n cwrdd â pholisi salon
3. nodi **personél argyfwng** a enwyd
4. lleoli **cyfarpar diffodd tân.**

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. amlinellu'r defnydd cywir o **gyfarpar diffodd tân ar gyfer gwahanol fathau o danau**
2. nodi peryglon y defnydd anghywir o **gyfarpar diffodd tân** ar wahanol fathau o danau
3. nodi pwysigrwydd adrodd a chofnodi damweiniau
4. disgrifio'r weithdrefn ar gyfer adrodd a chofnodi damweiniau
5. disgrifio **gweithdrefnau ar gyfer delio ag argyfyngau.**

**Cwmpas**

**Personél argyfwng**

Warden tân, swyddog cymorth cyntaf

**Defnyddio cyfarpar diffodd tân ar gyfer gwahanol fathau o danau**

Tanau trydan: powdr sych, carbon deuocsid

Tanau heb drydan: dŵr, ffôm, powdr sych, carbon deuocsid

**Gweithdrefnau delio ag argyfyngau**

Codi'r larwm, cysylltu â'r gwasanaethau brys, gwacáu, driliau, damweiniau, cymorth cyntaf

# Uned 203 Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **2**
**Rhif NDAQ:** **A/601/4458**

**Nod yr uned**
Uned paratoi ar gyfer gwaith yw hon sy'n seiliedig ar allu a gwybodaeth. Mae'r uned hon yn ymwneud â gofal am y cleient a chyfathrebu yn y diwydiannau cysylltiedig â harddwch. Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu i ddelio ag ymholiadau, manwerthu, ymgynghori, cwynion a phob math o ofal cleientiaid.

**Canlyniadau Dysgu**
Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:
1. Gallu cyfathrebu gyda chleientiaid
2. Gallu darparu gofal cleientiaid

**Oriau dysgu dan arweiniad**
Argymhellir y dylid neilltuo **20** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**
Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**
Asesir yr uned hon drwy:
- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 203 Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch

## Canlyniad 1 Gallu cyfathrebu gyda chleientiaid

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. defnyddio **technegau cyfathrebu** effeithiol
2. defnyddio technegau ymgynghori cleient i nodi amcanion triniaeth
3. rhoi **cyngor clir ac argymhellion** i'r cleient.

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. amlinellu gwahanol ffurfiau o **gyfathrebu** wedi'i ddefnyddio gyda chleientiaid.
2. **disgrifio sut i ddefnyddio technegau ymgynghori i nodi amcanion triniaeth**
3. nodi pwysigrwydd defnyddio **cyfathrebu** effeithiol i adnabod anghenion a disgwyliadau cleientiaid
4. disgrifio'r term 'gofod personol'
5. nodi pwysigrwydd rhoi cyngor clir ac argymhellion i'r cleient.

**Cwmpas**

**Technegau cyfathrebu/ymgynghori**

*Llafar:* technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais.
*Di-eiriau:* technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygad, mynegiannau wyneb.
*Defnyddio:* cymhorthion gweledol, cofnodion cleientiaid

**Cyngor ac argymhellion clir**

Darparu cyngor clir, argymhellion, cadarnhau dealltwriaeth cleientiaid a chytuno ar gynllun triniaeth,

# Uned 203 Gofal cleientiaid a chyfathrebu mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â harddwch

## Canlyniad 2 Gallu darparu gofal cleientiaid

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. cynnal cyfrinachedd cleientiaid yn unol â **deddfwriaeth**
2. rhoi adborth gan gleientiaid ar ofal cleientiaid
3. **ymateb i adborth ac mewn ffordd adeiladol**
4. atgyfeirio cwynion cleientiaid i'r **person perthnasol**
5. cynorthwyo gyda chwynion cleientiaid yn cael eu datrys.

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio cleient cyfrinachedd yn unol â'r Ddeddf Diogelu data
2. esbonio pwysigrwydd **technegau cyfathrebu** i gefnogi cyfleoedd manwerthu
3. nodi pwysigrwydd adborth cleient ac ymateb yn adeiladol
4. nodi sut i atgyfeirio a chynorthwyo gyda chwynion cleientiaid.

**Cwmpas**

**Deddfwriaeth**

Deddf Diogelu Data, Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau, Deddf Diogelu Defnyddwyr, Deddf Gwerthu Nwyddau

**Person perthnasol**

Rheolwr, croesawydd, uwch therapydd/technegydd ewinedd

**Technegau cyfathrebu**

*Llafar:* technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais.
*Di-eiriau:* technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygad, mynegiannau wyneb.
*Defnyddio:* cymhorthion gweledol, cofnodion cleientiaid

# Uned 204 Darparu gofal croen wyneb

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **7**
**Rhif NDAQ:** **A/601/3987**

**Nod yr uned**
Uned paratoi ar gyfer gwaith yw hon sy'n seiliedig ar allu a gwybodaeth. Mae'r uned yn ymwneud â gwella a chynnal cyflyrau croen yr wyneb i gynnwys disblisgo croen, cynhesu croen, echdynnu comedon, tylino wyneb, triniaethau masg a defnyddio cynhyrchion wyneb. Er mwyn cyflawni'r uned hon, bydd angen i'r dysgwr gynnal gweithdrefnau iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol drwy gydol ei waith.

**Canlyniadau Dysgu**
Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:
1. Gallu paratoi ar gyfer triniaethau gofal croen wyneb
2. Gallu darparu triniaethau gofal croen wyneb

**Oriau dysgu dan arweiniad**
Argymhellir y dylid neilltuo **56** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a'r safonau cenedlaethol perthnasol**
Cysylltir yr uned hon â Therapi Harddwch SGC, uned B4

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**
Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**
Asesir yr uned hon drwy:
- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 204 Darparu gofal croen wyneb

## Canlyniad 1 Gallu paratoi ar gyfer triniaethau gofal croen wyneb

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal weithio ar gyfer triniaeth gofal croen wyneb
2. defnyddio **technegau ymgynghori** addas i nodi **amcanion** triniaeth
3. cynnal dadansoddiad croen
4. darparu argymhellion clir i'r cleient
5. dewis **cynhyrchion, offer a chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient, c**yflyrau a mathau croen**

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio gofynion y salon ar gyfer paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal waith
2. nodi'r **amodau amgylcheddol** addas ar gyfer triniaethau gofal croen wyneb
3. disgrifio gwahanol **dechnegau ymgynghori** i nodi **amcanion** triniaeth
4. nodi pwysigrwydd cynnal dadansoddiad manwl o groen
5. disgrifio sut i ddewis cynhyrchion, offer a chyfarpar i weddu i anghenion triniaeth y cleient, **mathau a chyflyrau croen**
6. nodi **mathau croen, cyflyrau** a'u nodweddion
7. disgrifio'r **gwrth-arwyddion** sy'n atal neu'n cyfyngu ar driniaethau wyneb

**Cwmpas**

**Technegau ymgynghori**

*Llafar:* technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais
*Di-eiriau:* technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygad, mynegiannau wyneb
*Defnyddio:* cymhorthion gweledol, cofnodion cleientiaid

**Amcanion**

I wella cyflwr croen, ymlacio

**Cynhyrchion, offer a chyfarpar**

**Cynhyrchion:** ,  glanhau, tonio, diblisgo, hufen / gel llygad, lleithio, cynhyrchion gwefusau, masg (heb setio, setio) cyfryngau tylino (olew, hufen)

**Offer:** brwsh masg, sbatwla, powlenni

**Cyfarpar:** stemiwr, soffa, troli, stôl, lamp mwyhau

**Mathau a chyflyrau croen**

**Mathau croen:** normal, sych, olewog, cyfuniad
**Cyflyrau:** sensitif, aeddfed, dadhydradedig

**Amodau amgylcheddol**

Gwres, awyru, preifatrwydd, uchder a math o gerddoriaeth/synau,  arogl dymunol

**Gwrth-arwyddion**

**Atal triniaeth**: haint ffwngaidd, haint bacteriol, haint firaol, plâu, ecsema difrifol, psoriasis difrifol, cyflyrau croen difrifol, heintiau llygaid, yn ystod cemotherapi, yn ystod radiotherapi.
**Cyfyngu ar driniaeth:** esgyrn wedi torri, meinwe creithiau diweddar, hyper-ceratosis, alergeddau croen, toriadau a sgraffiniadau, epilepsi, diabetes, pwysedd gwaed uchel ac isel, anhwylderau croen, lympiau a chwyddiadau heb eu diagnosio, alergeddau cynnyrch

# Uned 204 Darparu gofal croen wyneb
## Canlyniad 2 Gallu darparu triniaethau gofal croen wyneb

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. **cyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. dilyn **arferion gweithio iechyd a diogelwch**
3. eu lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
4. defnyddio cynhyrchion, offer, cyfarpar **a thechnegau** i weddu i anghenion triniaeth, **math a chyflyrau croen** cleientiaid
5. cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
6. cofnodi canlyniadau'r driniaeth
7. darparu **cyngor ôl-ofal** addas

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. nodi sut i **gyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. disgrifio **arferion gweithio iechyd a diogelwch**
3. nodi pwysigrwydd eu lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
4. nodi pwysigrwydd defnyddio **cynhyrchion, offer, cyfarpar a thechnegau** i weddu i anghenion triniaeth cleientiaid, **math a chyflyrau croen**
5. disgrifio sut y gellir addasu'r triniaethau i weddu i anghenion triniaeth, **math a chyflyrau croen** cleientiaid
6. nodi'r **gwrth-adweithiau** a all ddigwydd yn ystod ac ar ôl triniaethau a sut i ymateb
7. nodi pwysigrwydd cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
8. nodi pwysigrwydd cwblhau cofnodion triniaeth yn gywir
9. nodi'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
10. disgrifio strwythur a swyddogaethau'r croen
11. disgrifio clefydau ac anhwylderau'r croen
12. esbonio sut mae heneiddio naturiol, ffordd o fyw a ffactorau amgylcheddol yn effeithio ar gyflwr y croen a thôn cyhyrau
13. nodi lleoliad a gweithred cyhyrau'r pen, y gwddf a'r ysgwyddau
14. nodi enwau a lleoliad esgyrn y pen, y gwddf a'r ysgwyddau
15. disgrifio strwythur a swyddogaeth y system gwaed a lymffatig ar gyfer y pen, y gwddf a'r ysgwyddau

**Cwmpas**

**Cyfathrebu ac ymddwyn**

**Cyfathrebu:** Siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig

**Ymddwyn:** Gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion y salon

**Arferion gweithio iechyd a diogelwch**

Dulliau sterileiddio, gwaredu gwastraff wedi’i halogi, deddfwriaeth, lleoli'r cleient a'r therapydd, symud ategolion

**Cynhyrchion, offer a chyfarpar**

**Cynhyrchion:** glanhau, tonio, diblisgo, hufen / gel llygad, lleithio, cynhyrchion gwefusau, masg (di-setio, setio) cyfryngau tylino (olew, hufen)

**Offer:** brwsh masg, sbatwla, powlenni

**Cyfarpar:** stemiwr, soffa, troli, stôl, lamp mwyhau

**Technegau:** tylino: effleurage, petrissage, tapotement, ffrithiant, dirgryniadau, diblisgo a chynhesu croen: stemio, brwsh llaw, echdynnu

**Mathau a chyflyrau croen**

**Mathau croen:** normal, sych, olewog, cyfuniad
**Cyflyrau:** sensitif, aeddfed, dadhydradedig

**Cyngor ôl-ofal**

Cyngor gofal cartref, newidiadau ffordd o fyw, anghenion triniaeth yn y dyfodol, argymhellion cynnyrch, ymatebion posibl

**Gwrth-adweithiau**

Gwritgochni difrifol, chwyddo, adweithiau alergaidd i gynhyrchion, niwed i'r meinwe yn achosi colli gwaed.

# Uned 205 Hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau i gleientiaid mewn salon

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **3**
**Rhif NDAQ:** **T/600/8769**

**Nodau'r uned**

Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r dysgwr i hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau i'r cleient. Mae'r sgiliau a ddatblygir gan y dysgwr yn cynnwys: nodi cynhyrchion a gwasanaethau ychwanegol, dulliau cyfathrebu i roi gwybodaeth gywir a pherthnasol, nodi arwyddion prynu a sicrhau cytundeb.

Bydd y wybodaeth a enillir gan y dysgwr yn eu galluogi i ddeall sut y bydd hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau o fudd i'r salon, sut i ddatblygu'r gwerthiant, y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sy'n effeithio ar werthu gwasanaethau.

**Canlyniadau Dysgu**

Mae **un** canlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau i'r cleient

**Oriau dysgu dan arweiniad**

Argymhellir y dylid neilltuo **28** awr o ddysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon. Gall hyn fod yn llawn-amser neu'n rhan-amser.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol**

Cysylltir yr uned hon â Therapi Harddwch SGC, uned G18

**Cymeradwyo'r uned gan sector neu gorff priodol arall**

Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**

Asesir yr uned hon drwy:

- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 205 Hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau i gleientiaid mewn salon

## Canlyniad 1 Gallu hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau i'r cleient

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. sefydlu gofynion y cleient
2. defnyddio **technegau cyfathrebu** addas i hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau
3. cyflwyno **gwasanaethau a/neu gynhyrchion** i'r cleient ar yr adeg briodol
4. rhoi gwybodaeth gywir a pherthnasol i'r cleient
5. adnabod arwyddion prynu a dehongli bwriadau'r cleientiaid yn gywir
6. nodi **gwasanaethau a/neu gynhyrchion** i fodloni gofynion y cleient

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio manteision i’r salon o hyrwyddo **gwasanaethau a chynhyrchion** i'r cleient
2. disgrifio'r technegau gwrando a chwestiynu a ddefnyddir ar gyfer hyrwyddo a gwerthu
3. disgrifio'r gwahanol **dechnegau ymgynghori** a ddefnyddir i hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau
4. esbonio'r termau '**nodweddion**' a '**buddion**' fel y'u cymhwysir at wasanaethau a chynhyrchion
5. disgrifio egwyddorion cyfathrebu effeithiol wyneb yn wyneb
6. nodi pwysigrwydd **cyflwyniad personol** effeithiol
7. nodi pwysigrwydd gwybodaeth dda am gynnyrch a gwasanaeth
8. amlinellu **camau'r broses werthu**
9. disgrifio sut i ddehongli arwyddion prynu
10. disgrifio sut i sicrhau cytundeb a chau'r gwerthiant
11. esbonio'r **ddeddfwriaeth** sy'n effeithio ar werthu **gwasanaethau a chynhyrchion**
12. disgrifio **dulliau talu** ar gyfer gwasanaethau a chynhyrchion

**Cwmpas**

**Technegau cyfathrebu**

*Llafar:* technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais
*Di-eiriau*: technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygaid, mynegiannau wyneb
*Defnyddio:* cymhorthion gweledol, cofnodion cleientiaid

**Gwasanaethau a/neu gynhyrchion**

Defnyddio cynhyrchion a gwasanaethau sy'n newydd i'r cleient, defnyddio'r un cynhyrchion neu wasanaethau ag y mae'r cleient wedi'u defnyddio o'r blaen

**Nodweddion a buddion**

**Nodwedd –** disgrifiad o'r cynnyrch neu wasanaeth
**Budd –** disgrifiad o'r buddion i'r cleient

**Cyflwyniad personol**

Gwisg, ymddangosiad, hylendid personol

**Camau'r broses werthu**
Nodi angen, nodi cynnyrch i ddiwallu'r angen, dangos cynnyrch, goresgyn rhwystrau, cwblhau gwerthiant.

**Deddfwriaeth**
Deddf Diogelu Data, Deddf Disgrifiadau Masnachol, Deddf Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau, Deddf Gwarchod Defnyddwyr, Deddf Diogelu Defnyddwyr, y Ddeddf Prisiau

**Dulliau talu**
Arian parod, siec, cerdyn credyd, cerdyn debyd a thalebau

# Uned 206 Symud gwallt gan ddefnyddio technegau cwyro

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **6**
**Rhif NDAQ:** **J/601/3555**

**Nod yr uned**
Uned paratoi ar gyfer gwaith yw hon sy'n seiliedig ar allu a gwybodaeth. Mae'r uned hon yn ymwneud â symud gwallt gan ddefnyddio technegau cwyro. Er mwyn cyflawni'r uned hon, bydd angen i'r dysgwr gynnal gweithdrefnau iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol drwy gydol ei waith

**Canlyniadau Dysgu**
Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:
1. Gallu paratoi ar gyfer triniaethau cwyro
2. Gallu darparu triniaethau cwyro.

**Oriau dysgu dan arweiniad**
Argymhellir y dylid neilltuo **57** awr o ddysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon. Gall hyn fod yn llawn-amser neu'n rhan-amser.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a'r safonau cenedlaethol perthnasol**
Cysylltir yr uned hon â Therapi Harddwch SGC, uned B6

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**
Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**
Asesir yr uned hon drwy:
- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 206 Symud gwallt gan ddefnyddio technegau cwyro

## Canlyniad 1 Gallu paratoi ar gyfer triniaethau cwyro

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal weithio ar gyfer triniaeth cwyro
2. defnyddio **technegau ymgynghori** addas i nodi amcanion triniaeth
3. cynnal y **profion** angenrheidiol cyn y driniaeth
4. darparu argymhellion clir i'r cleient
5. dewis **cynhyrchion, offer a chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient.

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio gofynion y salon ar gyfer paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal waith
2. nodi'r **amodau amgylcheddol** addas ar gyfer triniaethau cwyro
3. disgrifio gwahanol **dechnegau ymgynghori** i nodi **amcanion** triniaeth
4. disgrifio'r mathau o **brofion** sy'n cael eu cynnal cyn triniaeth gwyro
5. disgrifio sut i ddewis **cynhyrchion, offer a chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient
6. nodi gwahanol fathau o **ddulliau cwyro** a chynhyrchion sydd ar gael
7. nodi manteision ac anfanteision **dulliau amgen o symud gwallt**
8. disgrifio'r **effeithiau y gallai dulliau eraill o symud gwallt** eu cael ar driniaethau croen a chwyro
9. disgrifio'r **gwrth-arwyddion** sy'n atal neu'n cyfyngu ar driniaethau cwyro.

**Cwmpas**

**Technegau ymgynghori**

*Llafar*: technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais
*Di-eiriau:* technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygad, mynegiannau wyneb
*Defnyddio:* cymhorthion gweledol, cofnodion cleientiaid

**Profion**

Prawf patsh: Sensitifrwydd gwres, synhwyro cyffyrddol

**Cynhyrchion, offer a chyfarpar**

**Cynhyrchion:** cwyr cynnes (hufen, siwgr a mêl), cwyr poeth, cynhyrchion cyn cwyro, cynhyrchion lleddfu
**Offer:** sbatwla, stripiau cwyr, plicwyr, gosodwr cwyr rholio
**Cyfarpar:** gwresogyddion cwyr, troli, lamp mwyhau

**Amodau amgylcheddol**

Gwres, awyru, preifatrwydd, uchder a math o gerddoriaeth/synau, arogl dymunol

**Dulliau cwyro**

Cwyr poeth, cwyr cynnes, gosod â rholer

**Dulliau amgen o waredu blew**

Hufenau tynnu blew, eillio, electrolysis, IPL (golau pwls dwys), edafu

**Effeithiau gwahanol ddulliau o symud gwallt**

Gall dulliau cemegol a mecanyddol sensiteiddio croen

**Gwrth-arwyddion**

**Atal triniaeth:** haint ffwngaidd, haint bacteriol, haint firaol, plâu, ecsema difrifol, psoriasis difrifol, cyflyrau croen difrifol, thrombosis gwythiennau dwfn, yn ystod cemotherapi, yn ystod radiotherapi.

**Cyfyngu ar driniaeth:** esgyrn wedi torri, meinwe creithiau diweddar, hyper-ceratosis, alergeddau croen, toriadau a sgraffiniadau, epilepsi, diabetes, anhwylderau croen, toriadau esgyrn ac ysigiadau diweddar, lympiau a chwyddiadau heb eu diagnosio, alergeddau cynnyrch, cyflyrau cylchrediad a fflebitis.

# Uned 206 Symud gwallt gan ddefnyddio technegau cwyro

## Canlyniad 2 Gallu darparu triniaethau cwyro

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. **cyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. dilyn **arferion gweithio iechyd a diogelwch** a Chod Ymarfer y Diwydiant ar gyfer Gwasanaethau Cwyro
3. eu lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
4. defnyddio **cynhyrchion, offer, cyfarpar** a thechnegau i weddu i anghenion triniaeth cleient, **math a chyflyrau croen**
5. cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
6. cofnodi canlyniadau'r driniaeth
7. darparu **cyngor ôl-ofal** addas.

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. nodi sut i **gyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. disgrifio arferion gweithio iechyd a diogelwch a Chod Ymarfer y diwydiant ar gyfer Gwasanaethau Cwyro
3. nodi pwysigrwydd eu lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
4. nodi pwysigrwydd defnyddio **cynhyrchion, offer, cyfarpar** a thechnegau i weddu i anghenion triniaeth cleientiaid
5. disgrifio sut y gellir addasu'r triniaethau i weddu i anghenion triniaeth, **mathau a chyflyrau croen** cleientiaid
6. nodi'r **gwrth-adweithiau** a all ddigwydd yn ystod ac ar ôl triniaethau a sut i ymateb
7. nodi pwysigrwydd cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
8. nodi pwysigrwydd cwblhau cofnodion triniaeth yn gywir
9. nodi'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
10. disgrifio strwythur a swyddogaethau'r croen
11. disgrifio strwythur a chlych twf y gwallt
12. disgrifio clefydau ac anhwylderau'r croen.

**Cwmpas**

**Cyfathrebu ac ymddwyn**

**Cyfathrebu:** Siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig

**Ymddwyn:** Gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion y salon

**Arferion gweithio iechyd a diogelwch**

Dulliau sterileiddio, gwaredu gwastraff wedi’i halogi, deddfwriaeth, PPE, lleoli'r cleient a’r therapydd, symud ategolion

**Mathau a chyflyrau croen**

**Mathau croen:** normal, sych, olewog, cyfuniad
**Cyflyrau:** sensitif, aeddfed, dadhydradedig

**Gwrth-adweithiau**

*Ymateb normal*: gwritgochni, chwyddo
*Ymateb andwyol*: cleisio, gwaedu, symud croen

**Cyngor ôl-ofal**

*i osgoi*: gwres, cynhyrchion persawrus, colur, dillad cyfyngol, ac amlygiad UV
*I roi:* cynhyrchion esmwytháu antiseptig
Anghenion triniaeth yn y dyfodol

# Uned 207 Darparu triniaethau dwylo

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **5**
**Rhif NDAQ:** **T/601/4569**

**Nod yr uned**
Uned paratoi ar gyfer gwaith yw hon sy'n seiliedig ar allu a gwybodaeth. Mae'r uned hon yn ymwneud â thriniaethau dwylo. Er mwyn cyflawni'r uned hon, bydd angen i'r dysgwr gynnal gweithdrefnau iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol drwy gydol ei waith.

**Canlyniadau Dysgu**
Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:
1. Gallu paratoi ar gyfer triniaethau dwylo
2. Gallu darparu triniaethau dwylo

**Oriau dysgu dan arweiniad**
Argymhellir y dylid neilltuo **48** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a'r safonau cenedlaethol perthnasol**
Cysylltir yr uned hon â Therapi Harddwch SGC, uned N2

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**
Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**
Asesir yr uned hon drwy:
- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

## Uned 207 Darparu triniaethau dwylo
Canlyniad 1 Gallu paratoi ar gyfer triniaethau dwylo

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal weithio ar gyfer triniaeth dwylo
2. defnyddio **technegau ymgynghori** addas i nodi **amcanion** triniaeth
3. cynnal dadansoddiad o ewinedd a chroen
4. darparu argymhellion clir i'r cleient
5. dewis **cynhyrchion, offer a chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient, **cyflyrau croen ac ewinedd**

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio gofynion y salon ar gyfer paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal waith
2. disgrifio'r **amodau amgylcheddol** addas ar gyfer triniaethau dwylo
3. disgrifio gwahanol **dechnegau ymgynghori** i nodi **amcanion** triniaeth
4. esbonio pwysigrwydd cynnal dadansoddiad o ewinedd a chroen
5. disgrifio sut i **ddewis cynhyrchion, offer** a **chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient, **cyflyrau croen ac ewinedd**
6. nodi **cyflyrau ewinedd a chroen**
7. disgrifio'r **gwrth-arwyddion** sy'n atal neu'n cyfyngu ar driniaethau trin dwylo

**Cwmpas**

**Technegau ymgynghori**

*Llafar*: technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais
*Di-eiriau*: technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygaid, mynegiannau wyneb
*Defnyddio:* cymhorthion gweledol, cofnodion cleientiaid

**Amcanion**

Lleihau a chysoni hyd ewinedd, llyfnhau afreoleidd-dra plât ewinedd, gwella cyflwr y cwtigl, cyflyru, diblisgo, ailhydradu a maethu meinwe croen, darparu gorchudd deniadol, amddiffynnol i'r plât ewinedd

**Cynhyrchion, offer a chyfarpar**

**Cynhyrchion:** hylif sterileiddio, ategolion tafladwy, symudydd enamel, hylif croen, past bwffio, diblisgwyr, hufen cwtigl, symudydd cwtigl, cyflyryddion ewinedd, cryfhawyr ewinedd, cwyr paraffin, olew, cot sylfaen, enamel hufen, enamel lliw crisialog, cof uchaf, cynnyrch sychu ewinedd, hufen tylino, trwyth, hufen dwylo

**Offer a chyfarpar**: gwresogydd cwyr paraffin, mits thermol, byrddau emeri, byffer, cyllell cwtigl, tocwyr cwtigl, ffyn gwthio

**Mathau croen a chyflyrau ewinedd**

**Mathau o groen:** Normal, sych, olewog, cyfuniad, cyflyrau sy'n bresennol ar groen ac ewinedd, mannau geni, meinwe craith, capilarïau wedi torri
**Cyflyrau ewinedd**: Pterygium, onychopaghy, gwan, sych, brau, ewinedd hollt, ewinedd crog, rhychau hydredol neu lorweddol
**Siapiau ewinedd:** hirgrwn, wedi'u tapro, sgwâr, sgwargrwn, crafanc, ffan, pwyntiog

**Amodau amgylcheddol**
Gwres, awyru, preifatrwydd, uchder a math o gerddoriaeth/synau, goleuo priodol

**Gwrth-arwyddion**
**Atal triniaeth:** haint ffwngaidd, haint bacteriol, haint firaol, plâu, gwahaniad ewinedd difrifol, ecsema difrifol, psoriasis difrifol a chyflyrau croen difrifol
**Cyfyngu ar driniaeth:** esgyrn wedi torri, meinwe creithiau diweddar, alergeddau croen, toriadau a sgraffiniadau, diabetes, anhwylderau croen, toriadau esgyrn ac ysigiadau diweddar, lympiau a chwyddiadau heb eu diagnosio, alergeddau cynnyrch

## Uned 207 Darparu triniaethau dwylo

Canlyniad 2 Gallu darparu triniaethau dwylo

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. **cyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. dilyn **arferion gweithio iechyd a diogelwch**
3. eu lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
4. defnyddio **cynhyrchion, offer, cyfarpar a thechnegau** i weddu i anghenion triniaeth, **math a chyflyrau croen ac ewinedd** cleientiaid
5. cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
6. cofnodi canlyniadau'r driniaeth
7. darparu **cyngor ôl-ofal** addas

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. nodi sut i **gyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. disgrifio **arferion gweithio iechyd a diogelwch**
3. esbonio pwysigrwydd lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
4. esbonio pwysigrwydd defnyddio **cynhyrchion, offer, cyfarpar a thechnegau** i weddu i anghenion triniaeth, a **chyflyrau croen ac ewinedd** cleientiaid,
5. disgrifio sut y gellir addasu'r triniaethau i weddu i anghenion triniaeth, **cyflyrau croen ac ewinedd** cleientiaid
6. disgrifio'r gwahanol **dechnegau tylino** a'u manteision
7. nodi'r **gwrth-adweithiau** a all ddigwydd yn ystod ac ar ôl triniaethau a sut i ymateb
8. nodi pwysigrwydd cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
9. nodi pwysigrwydd cwblhau cofnodion triniaeth yn gywir
10. nodi'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
11. disgrifio clefydau ac anhwylderau'r ewinedd a'r croen
12. disgrifio strwythur a swyddogaethau'r ewinedd a'r croen
13. disgrifio strwythur a swyddogaeth cyhyrau rhan isaf y fraich a'r llaw
14. disgrifio strwythur a swyddogaeth esgyrn rhan isaf y fraich a'r llaw
15. disgrifio strwythur a swyddogaeth rhydwelïau a gwythiennau'r fraich a'r llaw
16. disgrifio strwythur a swyddogaeth pibellau lymffatig y fraich a'r llaw

### Cwmpas

**Cyfathrebu ac ymddwyn**

**Cyfathrebu:** siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig

**Ymddwyn:** gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion y salon

**Arferion gweithio iechyd a diogelwch**

Dulliau sterileiddio, gwaredu gwastraff halogedig, deddfwriaeth, lleoli'r cleient a therapydd, symud ategolion

**Cynhyrchion, offer a chyfarpar**

**Cynhyrchion:** hylif sterileiddio, ategolion tafladwy, symudydd enamel, hylif croen, past bwffio, diblisgwyr, hufen cwtigl, symudydd cwtigl, cyflyryddion ewinedd, cryfhawyr ewinedd, cwyr paraffin, olew, cot sylfaen, enamel hufen, enamel lliw crisialog, cof uchaf, cynnyrch sychu ewinedd, hufen tylino, trwyth, hufen dwylo

**Offer a chyfarpar**: gwresogydd cwyr paraffin, mits thermol, byrddau emeri, byffer, cyllell cwtigl, tocwyr cwtigl, ffyn gwthio

**Technegau:** ffeilio, gwaith cwtigl, tylino, diblisgo, masgiau llaw, defnyddio triniaethau gwres, enamelo (lliw solet, Ffrengig)

**Mathau croen a chyflyrau ewinedd**

**Mathau o groen:** Normal, sych, olewog, cyfuniad, cyflyrau sy'n bresennol ar groen ac ewinedd, mannau geni, meinwe craith, capilarïau wedi torri,
**Cyflyrau ewinedd**: Pterygium, onychopaghy, gwan, sych, brau, ewinedd hollt, ewinedd crog, rhychau hydredol neu lorweddol,
**Siapiau ewinedd:** hirgrwn, wedi'u tapro, sgwâr, sgwargrwn, crafanc, ffan, pwyntiog

**Cyngor ôl-ofal**

cynhyrchion ôl-ofal addas, cynnal a chadw a gwaredu enamel, gofalu am ddwylo ac ewinedd i gynnal a gwella cyflwr, triniaethau yn y dyfodol

**Technegau tylino**

Effleurage, petrissage, tapotement, trafod cymalau, ffrithiannau

**Gwrth-adweithiau**

Gwritgochni difrifol, adweithiau alergaidd i gynhyrchion, niwed i'r meinwe yn achosi colli gwaed

# Uned 208 Darparu triniaethau traed

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **5**
**Rhif NDAQ:** **R/601/4448**

**Nod yr uned**
Uned paratoi ar gyfer gwaith yw hon sy'n seiliedig ar allu a gwybodaeth. Mae'r uned hon yn ymwneud â darparu triniaethau traed. Er mwyn cyflawni'r uned hon, bydd angen i'r dysgwr gynnal gweithdrefnau iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol drwy gydol ei waith.

**Canlyniadau Dysgu**
Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu paratoi ar gyfer triniaethau trin traed
2. Gallu darparu triniaethau trin traed

**Oriau dysgu dan arweiniad**
Argymhellir y dylid neilltuo 48 o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a'r safonau cenedlaethol perthnasol**
Cysylltir yr uned hon â Therapi Harddwch SGC, uned N3

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**
Cymeradwyir yr uned hon gan Habia

**Asesu**
Asesir yr uned hon drwy:

- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 208 Darparu triniaethau traed

## Canlyniad 1 Gallu paratoi ar gyfer triniaethau trin traed

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal weithio ar gyfer triniaeth traed
2. defnyddio **technegau ymgynghori** addas i nodi **amcanion** triniaeth
3. cynnal dadansoddiad o ewinedd a chroen
4. darparu argymhellion clir i'r cleient
5. dewis **cynhyrchion, offer a chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient, **cyflyrau croen ac ewinedd**

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio gofynion y salon ar gyfer paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal waith
2. disgrifio'r **amodau amgylcheddol** addas ar gyfer triniaethau traed
3. disgrifio gwahanol **dechnegau ymgynghori** i nodi **amcanion** triniaeth
4. esbonio pwysigrwydd cynnal dadansoddiad o ewinedd a chroen
5. disgrifio sut i **ddewis cynhyrchion, offer** a **chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient, **cyflyrau croen ac ewinedd**
6. nodi **cyflyrau ewinedd a chroen**
7. disgrifio'r **gwrth-arwyddion** sy'n atal neu'n cyfyngu ar driniaethau trin traed

**Cwmpas**

**Technegau ymgynghori**

*Llafar:* technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais.
*Di-eiriau:* technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygad, mynegiannau wyneb.
*Defnyddio:* cymhorthion gweledol, cofnodion cleientiaid.

**Amcanion**

Lleihau a chysoni hyd ewinedd, llyfnhau afreoleidd-dra plât ewinedd, gwella cyflwr y cwtigl, cyflyru, diblisgo, ailhydradu a maethu meinwe croen, darparu gorchudd deniadol, amddiffynnol i'r plât ewinedd

**Cynhyrchion**, **offer a chyfarpar**

gwresogydd cwyr paraffin, bwtis thermol, byrddau emeri, cliperi, ffeiliau/rhathellau traed, byffer, cyllell cwtigl, clipwyr cwtigl, ffyn gwthio

**Amodau amgylcheddol**

Gwres, awyru, preifatrwydd, uchder a math o gerddoriaeth/synau, goleuo priodol

**Cyflyrau croen ac ewinedd**

**Cyflyrau croen:** cyflyrau'n bresennol ar y croen a'r ewinedd, mannau geni, meinwe craith, capilarïau wedi torri
**Cyflyrau ewinedd**: Pterygium, onychopaghy, gwan, sych, brau, ewinedd hollt, ewinedd crog, rhychau hydredol neu lorweddol

**Gwrth-arwyddion**

**Atal triniaeth:** haint ffwngaidd, haint bacteriol, haint firaol, plâu, gwahaniad ewinedd difrifol, ecsema difrifol, psoriasis difrifol a chyflyrau croen difrifol.
**Cyfarpar:** gorchudd llygaid, papur, gwlân cotwm, pecynnau iâ, dyfeisiau gwresogi

**Amodau amgylcheddol**

Gwres, awyru, preifatrwydd, uchder a math o gerddoriaeth/synau, arogl dymunol, golau

**Triniaethau blew amrant ac aeliau**

Cwyro tynnu blew, electrolysis, IPL (golau pwls dwys), edafu, colur lled-barhaol, estyniadau blew amrant, pyrmio, lliwio aeliau (gan ddefnyddio pensil a phowdwr aeliau), teneuo blew amrant ac aeliau

**Siâp aeliau**

**Onglog, bwaog, syth, tenau a thrwchus**

**Gwrth-arwyddion**

Clefydau croen, ecsema, psoriasis, toriadau a sgraffiniadau, lympiau a chwyddiadau heb eu diagnosio, gwritgochni, meinwe creithiau diweddar, croen hypersensitif, meinwe creithiau newydd, llefrithod, adwaith alergaidd i brawf patsh, llygaid yn dyfrio, llid y gyfbilen, alergeddau

## Uned 225 Siapio a lliwio aeliau

Canlyniad 2 Gallu darparu triniaeth siapio a lliwio aeliau

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. **cyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. eu lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
3. **dewis a defnyddio cynhyrchion, offer a chyfarpar** gan ystyried ffactorau a nodwyd
4. defnyddio **technegau lliwio** gan ystyried **ffactorau** a nodwyd
5. defnyddio **technegau plicio** gan ystyried **ffactorau** a nodwyd
6. dilyn **arferion gweithio diogel a hylan**
7. nodi **gwrth-adweithiau** a chymryd camau priodol yn ystod y driniaeth
8. darparu **cyngor ôl-ofal** addas
9. cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
10. gwerthuso canlyniadau'r driniaeth gyda'r cleient

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio sut i **gyfathrebu** ac **ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. nodi pwysigrwydd lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
3. disgrifio **arferion gwaith diogel a hylan**
4. disgrifio **gwrth-adweithiau** sy'n gallu digwydd yn ystod ac yn dilyn y driniaeth a sut i ymateb
5. disgrifio'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
6. nodi pwysigrwydd cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
7. nodi **dulliau gwerthuso** effeithiolrwydd y driniaeth
8. disgrifio dulliau o **leihau anghysur** yn ystod triniaethau siapio aeliau
9. nodi pwysigrwydd glanhau ardal y llygad yn gywir
10. disgrifio **ymateb normal** y croen i driniaethau siapio aeliau
11. nodi cynhwysion sylfaenol cynhyrchion
12. disgrifio'r adwaith cemegol sy'n creu'r effaith tintio
13. disgrifio strwythur a phrif swyddogaeth y croen a'r gwallt
14. disgrifio prif glefydau ac anhwylderau'r croen a'r gwallt
15. nodi sut i gadw cofnod o gynhyrchion a ddefnyddiwyd

**Cwmpas**

**Cyfathrebu ac ymddwyn**

**Cyfathrebu:** siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig

**Ymddwyn:** gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion salon

**Cynhyrchion, offer a chyfarpar**

**Cynhyrchion:** symudydd colur llygad di-olew, jeli petrolewm, hylif / gel cyll ystwyth, dŵr oer, symudydd staen, trwyth, hydrogen perocsid, arlliw, offeryn mesur, pensil aeliau, powdr aeliau
**Offer: plicwyr** (goleddf, crafanc, pwyntiog, awtomatig), brwshys, ffyn pren, dysgl cymysgu a gosodwr, drych

**Cyfarpar:** gorchudd llygaid, papur, gwlân cotwm, pecynnau iâ, dyfeisiau gwresogi

**Technegau lliwio**
Cael gwared ar yr holl olion colur gyda chynnyrch di-olew, defnyddio cynhyrchion lliwio fel pensil aeliau neu bowdr aeliau i siapio a diffinio

**Ffactorau**
siâp aeliau presennol, siâp / nodweddion wyneb, lliw gwallt, lliw llygaid, lliw croen, croen a chyflyrau llygaid andwyol, disgwyliadau cleientiaid, tyllu'r wyneb, gwrth-arwyddion, oedran, triniaethau blaenorol, tueddiadau ffasiwn a ffactorau diwylliannol

**Technegau plicio**
**Tynnu colur o'r croen o'i amgylch, paratoi'r croen ar gyfer triniaeth, asesu siâp gofynnol aeliau'r cleient, symud y gwallt i gyfeiriad twf gwallt, cefnogaeth y croen o amgylch, a lleddfu'r croen**

**Arferion gweithio diogel a hylan**
Dulliau sterileiddio, gwaredu gwastraff halogedig, deddfwriaeth, PPE, Iechyd a Diogelwch perthnasol

**Gwrth-adweithiau**
Cleisio, gwaedu, pigo, staenio, chwyddo

**Cyngor ôl-ofal**
*I osgoi:* haul, gwres, cynhyrchion persawrus, colur, golau UV, peidio â phyrmio blew amrant am 24 awr.
*I osod:* cynhyrchion antiseptig ac esmwytháu

**Dulliau gwerthuso**
Adborth gweledol, llafar, ysgrifenedig, ailadrodd busnes
Cymeradwyaeth - HBS DDP

**Lleihau anghysur**
Pwysau, ymestyn, symud gwallt i gyfeiriad tyfu, eli lleddfu, safle'r cleient, safle'r therapydd

**Ymateb normal**
Chwyddo, gwritgochni

# Uned 226 Celfyddyd lliwio gwallt

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **7**
**Rhif NDAQ:** **T/600/8626**

**Nod yr uned**

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwr yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i newid lliw gwallt gan ddefnyddio cynhyrchion dros dro a lled barhaol sylfaenol. Mae'r sgiliau a ddatblygir gan y dysgwr yn cynnwys cymwysiadau lliw ar gyfer lliwio dros dro a lled barhaol. Bydd y wybodaeth a enillir gan y dysgwyr yn eu galluogi i ddeall sut i ddewis dulliau defnyddio addas, dewis cynhyrchion addas, gweithio'n ddiogel ac yn effeithlon a rhoi cyngor ôl-ofal.

**Canlyniadau Dysgu**

Mae **dau** ganlyniad gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu paratoi ar gyfer lliwio gwallt
2. Gallu darparu gwasanaeth lliwio

**Oriau dysgu dan arweiniad**

Argymhellir neilltuo **60** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a'r safonau cenedlaethol perthnasol**

Mae'r uned hon yn gysylltiedig â'r SGC Trin gwallt, uned GH9.

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**

Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**

Asesir yr uned hon drwy:

- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 226 Celfyddyd lliwio gwallt

## Canlyniad 1 Gallu paratoi ar gyfer lliwio gwallt

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal waith ar gyfer gwasanaeth lliwio
2. defnyddio **technegau ymgynghori** addas i nodi amcanion gwasanaeth
3. asesu potensial y gwallt i gyflawni'r olwg a ddymunir drwy nodi'r ffactorau dylanwadol

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. esbonio'r **ystyriaethau diogelwch** y mae'n rhaid eu hystyried wrth liwio gwallt
2. amlinellu'r mathau o **gynhyrchion** lliwio a **thechnegau lliwio**
3. nodi'r **ffactorau** y mae angen eu hystyried wrth ddewis cynhyrchion lliw
4. esbonio pwysigrwydd cynnal y **profion** angenrheidiol cyn ac yn ystod y gwasanaeth lliwio a chofnodi canlyniadau
5. esbonio egwyddorion dewis lliw
6. esbonio sut mae pigmentau gwallt naturiol yn dylanwadu ar ddewis lliw
7. disgrifio sut mae'r siart lliw rhyngwladol yn cael ei ddefnyddio i ddewis lliw
8. disgrifio sut mae pob un o'r lliwiau'n effeithio ar strwythur y gwallt
9. esbonio'r **defnydd o hydrogen perocsid** goleuo'r gwallt
10. disgrifio'r gwahanol **dechnegau ymgynghori** a ddefnyddir i nodi amcanion gwasanaeth
11. disgrifio gofyniad y salon am baratoi cleientiaid, paratoi eu hunain a’r ardal weithio

**Cwmpas**

**Technegau ymgynghori**

*Llafar:* technegau holi, iaith a ddefnyddir, tôn y llais.
*Di-eiriau:* technegau gwrando, iaith y corff, cyswllt llygad, mynegiannau wyneb.
*Defnyddio:* cofnodion cleientiaid

**Ffactorau**

Tôn croen, gwasanaethau blaenorol, lliw presennol, ffordd o fyw, cyflwr gwallt, canlyniadau profion, gofynion cleientiaid, personoliaeth, ffasiwn, hysbysebu, cyfryngau, sylw i enwogion, brandio

**Ystyriaethau diogelwch**

Paratoi cleientiaid, PPE, COSHH, cyfarwyddiadau gwneuthurwyr, lleoli’r cleient/hunan, archwiliadau gweledol o offer trydanol, offer/cyfarpar sterileiddio, gweithdrefnau cymorth cyntaf, amddiffyn rhag heintiau a thraws-heintio

**Cynhyrchion**

Lled-barhaol, ffug-barhaol, parhaol, cannydd, cynhyrchion goleuo, cynhyrchion manwerthu stryd fawr, cynhyrchion salon proffesiynol

**Technegau lliwio**

Pen llawn, pen rhannol, ffoiliau, cap, sbatwla, llaw rydd

**Profion**
Prawf croen, prawf elastigedd, prawf mandylledd, prawf llinyn datblygu lliw

**Defnydd o hydrogen perocsid**
I dywyllu'r lliw sylfaen, i oleuo'r lliw sylfaen ac i donio

# Uned 226 Celfyddyd lliwio gwallt

## Canlyniad 2 Gallu darparu gwasanaeth lliwio

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. **cyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. dewis a defnyddio'r **dull gosod**, cynhyrchion, **offer a chyfarpar** i liwio gwallt dros dro a lled-barhaol
3. eu lleoli eu hunain a'r cleient yn briodol drwy gydol y gwasanaeth
4. cymysgu a gosod y lliw gan ddefnyddio adrannau taclus
5. monitro datblygiad y lliw yn gywir, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
6. symud y cynnyrch lliw yn drylwyr o'r gwallt a chroen y pen
7. defnyddio cyflyrydd addas neu driniaeth ôl-liw i'r gwallt yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
8. creu golwg a ddymunir i foddhau'r cleient
9. darparu **cyngor ôl-ofal** addas
10. dilyn **arferion gweithio diogel a hylan**
11. gwerthuso canlyniadau'r driniaeth gyda'r cleient

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio'r defnydd cywir o o**ffer a chyfarpar** a chynnal a chadw yn rheolaidd
2. nodi pwysigrwydd adfer pH y gwallt ar ôl lliw parhaol
3. disgrifio'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
4. amlinellu **arferion gwaith diogel a hylan**
5. nodi sut i **gyfathrebu ac ymddwyn** o fewn amgylchedd salon

**Cwmpas**

**Cyfathrebu ac ymddwyn**

**Cyfathrebu:** siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig

**Ymddwyn:** gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion salon

**Dull gosod**

Pen llawn, ail-dyfu

**Offer a chyfarpar**

Brwsh a phowlen, potel gosod, cap uchafbwyntio, pecynnau lliw (ffoiliau / lapiau), stemwr, is-goch, cyfarpar sychu

**Cyngor ôl-ofal**

Sut i gynnal lliw, siampŵ addas a chynhyrchion cyflyru, gwasanaethau salon yn y dyfodol

**Arferion gweithio diogel a hylan**

Dulliau sterileiddio, gwaredu gwastraff wedi'i halogi, deddfwriaeth, PPE, lleoli'r cleient a'r steilydd, symud ategolion, Iechyd a Diogelwch perthnasol

# Uned 227 Celfyddyd trin gwallt

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **5**
**Rhif NDAQ:** **Y/502/3979**

## Nod yr uned

Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r dysgwr i steilio a thrin gwallt menywod gan ddefnyddio technegau sylfaenol. Mae'r sgiliau a ddatblygir gan y dysgwr yn cynnwys setio, chwyth-sychu, sychu â bysedd, sythu a thrin gwallt hir. Bydd y wybodaeth a gafwyd gan y dysgwr yn ei alluogi i ddeall sut mae steilio'r gwallt yn effeithio ar strwythur y gwallt a sut mae lleithder yn effeithio ar yr arddull sy'n deillio o hynny.

## Canlyniadau Dysgu

Mae **dau** ganlyniad gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu paratoi ar gyfer trin gwallt
2. Gallu darparu gwasanaeth trin gwallt

## Oriau dysgu dan arweiniad

Argymhellir neilltuo **30** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

## Manylion y berthynas rhwng yr uned a'r safonau cenedlaethol perthnasol

Mae'r uned hon yn gysylltiedig â'r SGC Trin gwallt, uned GH10 a GH11.

## Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall

Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

## Asesu

Asesir yr uned hon drwy:

- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 227 Celfyddyd trin gwallt

## Canlyniad 1 Gallu paratoi ar gyfer trin gwallt

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. paratoi eu hunain, y cleient a'r man gwaith ar gyfer gwasanaethau trin gwallt
2. ymgynghori â chleientiaid i gadarnhau eu gofynion
3. gwerthuso potensial y gwallt i gyflawni'r edrychiad a ddymunir trwy nodi'r ffactorau dylanwadol

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. nodi gweithdrefn ar gyfer paratoi cleientiaid
2. disgrifio effeithiau : gwahanol dechnegau steilio
3. disgrifio'r ffactorau y mae angen eu hystyried wrth steilio a thrin gwallt
4. disgrifio **effeithiau ffisegol** steilio ar strwythur y gwallt
5. disgrifio effeithiau lleithder ar strwythur y gwallt a'r steil sy'n deillio o hynny
6. esbonio sut y gall y **defnydd anghywir o wres** effeithio ar y gwallt a chroen y pen

**Cwmpas**

**Ffactorau**

Gwallt: gwlyb, sych, cyrliog, syth.
Gofynion cleientiaid, gwead gwallt, hyd a dwysedd, pen/wyneb siapiau/nodweddion, ffordd o fyw cleient, gwrth-arwyddion, siâp corff, patrymau twf gwallt, math gwallt, elastigedd gwallt, tueddiadau ffasiwn

**Effeithiau corfforol**

Ymddangosiad y gwallt, newidiadau strwythurol

**Defnydd anghywir o wres**

Tymheredd, cyfeiriad llif aer, amlder defnydd

# Uned 227 Celfyddyd trin gwallt
## Canlyniad 2 Gallu darparu gwasanaeth trin gwallt

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. eu lleoli eu hunan a'u cleient yn briodol drwy gydol y gwasanaeth
2. dewis a defnyddio **cynhyrchion, offer a chyfarpar steilio** i gyflawni'r edrychiad a ddymunir
3. defnyddio **dulliau gweithio** sy'n cwrdd â gofynion salon a rhai cyfreithiol
4. defnyddio **technegau steilio** ac effeithiau trin gwallt sy'n ystyried y **ffactorau** a nodwyd
5. rheoli a sicrhau gwallt yn effeithiol yn ystod trin
6. trin gwallt er boddhad y cleient
7. defnyddio cynhyrchion gorffen i gynnal y steil
8. darparu **cyngor ôl-ofal** addas
9. dilyn **arferion gweithio diogel a hylan**
10. **cyfathrebu** ac **ymddwyn** mewn modd proffesiynol

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio'r defnydd cywir o offer, cyfarpar ac ategolion a'u cynnal yn arferol
2. disgrifio'r defnyddiau ar gyfer yr ystod o **gynhyrchion steilio**
3. disgrifio sut i sicrhau a rheoli **edrychiadau gwallt hir**
4. nodi **pwrpas ôl-gribo ac ôl-frwsio** wrth drin gwallt
5. disgrifio'r defnyddiau ar gyfer yr ystod o **gynhyrchion gorffen**
6. disgrifio'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
7. amlinellu **arferion gwaith diogel a hylan** wrth steilio a thrin gwallt
8. nodi sut i **gyfathrebu** mewn amgylchedd salon
9. nodi'r **disgwyliadau ymddygiad** o fewn amgylchedd salon

**Cwmpas**

**Cynhyrchion, offer a chyfarpar steilio**

**Cynhyrchion steilio:** trwythau, mousses, ysgogwyr, gelau, lleithyddion

**Offer a chyfarpar:** Sychwr wedi'i ddal â llaw, sychwr cwfl, tryledwr, ffroenell, brwsys crwn, brwsys gwastad, rholeri wedi'u sicrhau gyda phinnau, clipiau cyrl pin, sythwyr, gefeiliau cyrlio, rholeri wedi'u gwresogi, plu, rhubanau, blodau

**Dulliau gweithio**

Paratoi cleientiaid, gofynion gwasanaeth, dulliau gweithio diogel, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr, PPE

**Technegau steilio**

Setio (dirwyn bric, troelli cyfeiriadol), chwyth-sychu, sychu â bysedd, cyrlio, tonni, esmwytháu, sythu, cyrlio pin, tonni â bysedd

**Ffactorau**
Gwallt: gwlyb, sych, cyrliog, syth.
Gofynion cleientiaid, gwead gwallt, hyd a dwysedd, pen/wyneb siapiau/nodweddion, ffordd o fyw cleient, gwrth-arwyddion, siâp corff, patrymau twf gwallt, math gwallt, elastigedd gwallt, tueddiadau ffasiwn

**Cyngor ôl-ofal**
Sut i gynnal yr olwg, cynhyrchion steilio a gorffen addas i'w defnyddio

**Arferion gweithio diogel a hylan**
Dulliau sterileiddio, gwaredu gwastraff halogedig, deddfwriaeth, symud ategolion, Iechyd a Diogelwch perthnasol

**Cyfathrebu ac ymddwyn**
**Cyfathrebu:** Siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig
**Ymddwyn:** Gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion salon

**Golygon gwallt hir**
Pleth croen y pen, rhôl fertigol, troellau

**Pwrpas ôl-gribo ac ôl-frwsio**
Steilio: parhad, siâp, sicrhau

**Cynhyrchion gorffen**
Chwistrellau, cwyrau, geliau, serymau, hufen trin gwallt, olewau

# Uned 229 Darparu therapi thermol y glust

**Lefel:** **2**
**Gwerth credyd:** **2**
**Rhif NDAQ:** **A/601/4220**

**Nod yr uned**
Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r dysgwr i ddarparu therapi thermol y glust.

**Canlyniadau Dysgu**
Mae **dau** ganlyniad gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:
1. Gallu paratoi ar gyfer therapi thermol y glust
2. Gallu darparu therapi thermol y glust

**Oriau dysgu dan arweiniad**
Argymhellir neilltuo **20** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Manylion y berthynas rhwng yr uned a'r safonau cenedlaethol perthnasol**
Cysylltir yr uned hon â Habia SGC.

**Cefnogi'r uned gan sector neu gorff priodol arall**
Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**
Asesir yr uned hon drwy:
- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 229 Darparu therapi thermol y glust
## Canlyniad 1 Gallu paratoi ar gyfer therapi thermol y glust

**Sgiliau ymarferol**
Mae’r dysgwr yn gallu:
1. paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal weithio ar gyfer therapi thermol y glust
2. defnyddio **technegau ymgynghori** addas i nodi **amcanion** triniaeth
3. darparu argymhellion clir i'r cleient
4. dewis **cynhyrchion, offer a chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient

**Gwybodaeth sylfaenol**
Mae’r dysgwr yn gallu:
1. disgrifio gofynion y salon ar gyfer paratoi eu hunain, y cleient a'r ardal waith
2. disgrifio'r **amodau amgylcheddol** addas ar gyfer therapi thermol y glust
3. disgrifio gwahanol **dechnegau ymgynghori** i nodi **amcanion** triniaeth
4. disgrifio sut i ddewis **cynhyrchion, offer a chyfarpar** i weddu i anghenion triniaeth y cleient
5. disgrifio gwahanol **fathau o ganhwyllau clust**
6. disgrifio'r **gwrth-arwyddion** sy'n atal neu'n cyfyngu ar therapi thermol y glust

**Cwmpas**
**Technegau ymgynghori**
Llafar - technegau holi, tôn llais, defnydd o iaith

**Amcanion y driniaeth**
Cwyr gormodol, ymlacio, cur pen, heintiau post clust, trwyn a'r gwddf, sŵn clust, hedfan aml, rhyddhad rhag tagfeydd sinws

**Cynhyrchion**
Canhwyllau clust, jeli petrolewm neu hufen gwarchod

**Offer**
Taniwr, jar gwydr bach, gwarchodwr amddiffyn clust, siswrn

**Cyfarpar**
Soffa, troli, stôl, clip gwallt

**Amodau amgylcheddol**
Gwres, preifatrwydd, uchder a math o gerddoriaeth/synau, rhydd o ddrafft

**Mathau o ganhwyllau clust**
Canhwyllau siâp côn, canhwyllau tenau hir, strwythur/cyfansoddiad canhwyllau clust

**Gwrth-arwyddion**

Trydylliad neu ddiffyg drwm clust, gromedau neu ddraeniau'r glust, llawdriniaeth glust ddiweddar, systiau clust, llid y glust, heintiau clust, alergedd i gynhwysion cannwyll (epilepsi, pwysedd gwaed uchel / ecsema neu psoriasis yn y glust, meigryn)

# **Uned 229 Darparu therapi thermol y glust**
## Canlyniad 2 Gallu darparu therapi thermol y glust

**Sgiliau ymarferol**
Mae'r dysgwr yn gallu:
1. **cyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. dilyn **arferion gweithio iechyd a diogelwch**
3. eu lleoli eu hunain a'r cleient yn gywir trwy gydol y driniaeth
4. defnyddio **cynhyrchion, offer, cyfarpar** a thechnegau i weddu i anghenion triniaeth cleientiaid
5. cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
6. cofnodi canlyniadau'r driniaeth
7. darparu **cyngor ôl-ofal** addas

**Gwybodaeth sylfaenol**
Mae'r dysgwr yn gallu:
1. nodi sut i **gyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. disgrifio **arferion gweithio iechyd a diogelwch**
3. esbonio pwysigrwydd lleoli eu hunain a'r cleient trwy gydol y driniaeth
4. esbonio pwysigrwydd defnyddio **cynhyrchion, offer, cyfarpar** a thechnegau i weddu i anghenion triniaeth cleientiaid
5. disgrifio sut y gellir addasu'r triniaethau i weddu i anghenion triniaeth, mathau a chyflyrau croen cleientiaid
6. nodi'r **gwrth-adweithiau** a all ddigwydd yn ystod ac ar ôl triniaethau a sut i ymateb
7. nodi pwysigrwydd cwblhau'r driniaeth i fodloni'r cleient
8. nodi pwysigrwydd cwblhau cofnodion triniaeth yn gywir
9. nodi'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
10. disgrifio strwythur y **glust**

**Cwmpas**

**Cyfathrebu**
Siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig

**Ymddwyn**
Gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion salon

**Arferion gweithio iechyd a diogelwch**
Gweithio gyda gwrthrychau fflamadwy, gwaredu gwastraff, deddfwriaeth, safle'r cleient a'r therapydd, tynnu ategolion

**Cynhyrchion**
Pâr o ganhwyllau clust, jeli petrolewm

**Offer**
Cyneuydd, jar gwydr bach, gwarchodwr amddiffyn clust, siswrn

**Cyfarpar**
Soffa, troli, stôl

**Gwrth-adweithiau**
Pennau tost difrifol, adwaith alergaidd i gynhyrchion, anghysur clust, pendro ysgafn, pendro

**Cyngor ôl-ofal**
Gorffwys, cymeriant dŵr, anghenion triniaeth yn y dyfodol, cadw clustiau'n gynnes, dim nofio, cadw clustiau'n sych am 24 awr

**Clust**
Clust allanol (pinna) fewnol a chlust ganol (sianel glust).

# Uned 310 Gwneud a steilio ychwanegiad gwallt

**Lefel:** **3**
**Gwerth credyd:** **7**
**Rhif NDAQ:** **K/600/8638**

**Nod yr uned**

Nod yr uned hon yw caniatáu i'r dysgwr ddarganfod sut i wneud ychwanegiad gwallt syml gan ddefnyddio'r dechneg gwneud wig trwy wehyddu anwe. Bydd y dysgwr yn datblygu ac yn ymestyn ei sgiliau creadigol a dychmygus, drwy ddefnyddio technegau pyrmio a/neu liwio. Bydd y dysgwr wedyn yn gallu datblygu bwrdd hwyliau i gynllunio sut y byddent yn ymgorffori eu cynllun ychwanegiad gwallt mewn dyluniad gwallt creadigol. Bydd diddordeb y dysgwyr yn cael ei ennyn drwy agweddau profiad ac arloesol yr uned hon, a bydd eu sgiliau deheurwydd yn cael eu cryfhau. Bydd y dysgwr yn cael cyfle i weithio gydag eraill mewn grwpiau bach i ymchwilio a chynhyrchu ei ganfyddiadau, a chymryd rhan mewn cyflwyniad llafar byr i gynulleidfa o gyfoedion.

**Canlyniadau Dysgu**

Mae **dau** ganlyniad dysgu gan yr uned hon. Bydd y dysgwr yn:

1. Gallu datblygu bwrdd hwyliau
2. Gallu gwneud a steilio ychwanegiad gwallt

**Oriau dysgu dan arweiniad**

Argymhellir y dylid neilltuo **60** o oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer yr uned hon, er bod patrymau cyflwyno yn debygol o amrywio.

**Cymeradwyo'r uned gan sector neu gorff priodol arall**

Cymeradwyir yr uned hon gan Habia.

**Asesu**

Asesir yr uned hon drwy:

- tasgau ymarferol, a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn prawf ar-lein.

# Uned 310 Gwneud a steilio ychwanegiad gwallt

## Canlyniad 1 Gallu datblygu bwrdd hwyliau

**Sgiliau ymarferol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. datblygu bwrdd hwyliau sy'n ymgorffori ychwanegiadau gwallt wedi’u gwehyddu ac **ategolion** , ac sy'n ystyried **ffactorau dylanwadol**

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae’r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio sut i ddatblygu bwrdd hwyliau
2. amlinellu **pwrpas bwrdd hwyliau**
3. amlinellu sut i gyflwyno bwrdd hwyliau sy'n ymgorffori ychwanegiadau gwallt, ategolion ac addurniadau
4. disgrifio prif steiliau wigiau ac ychwanegiadau gwallt a ddefnyddir mewn gwareiddiadau a diwylliannau hanesyddol
5. esbonio sut mae wigiau ac ychwanegiadau gwallt yn cael eu defnyddio mewn cymdeithas fodern
6. disgrifio'r cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer gwneud wigiau ac arbenigwyr ychwanegion gwallt
7. disgrifio'r **ffactorau dylanwadol** y mae angen eu hystyried wrth greu ychwanegiad gwallt

**Cwmpas**

**Ategolion**

Plu, rhubanau, blodau.

**Ffactorau dylanwadol**

Addurn, hyd gwallt, lliw gwallt, graddau'r cyrl, rhywedd a diwylliant, tueddiadau ffasiwn, y canlyniad gorffenedig a ddymunir.

**Pwrpas bwrdd hwyliau**

Creadigrwydd, themâu cysylltiedig, dewis o dechnegau arbenigol.

# Uned 310 Gwneud a steilio ychwanegiad gwallt
## Canlyniad 2 Gallu gwneud a steilio ychwanegiad gwallt

**Sgiliau ymarferol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. **cyfathrebu ac ymddwyn** mewn modd proffesiynol
2. dewis **cynhyrchion, offer, cyfarpar ac ategolion** i gyflawni'r effaith a ddymunir
3. cynhyrchu anwe gwallt wedi'i wehyddu ar ffrâm gwehyddu
4. cynhyrchu ychwanegiad gwallt gorffenedig terfynol
5. steilio'r anwe gwallt gan ddefnyddio **technegau steilio parhaol**
6. cyflwyno'r ychwanegiad steil gorffenedig terfynol
7. darparu **cyngor ôl-ofal** addas
8. cofnodi technegau, c**ynhyrchion, offer, cyfarpar ac ategolion** a ddefnyddir i gyflawni
9. dilyn **arferion gweithio diogel a hylan**
10. gwerthuso dyluniad y gwallt gorffenedig

**Gwybodaeth sylfaenol**

Mae'r dysgwr yn gallu:

1. disgrifio sut i gynnal ychwanegiadau gwallt
2. disgrifio technegau steilio gwallt ar gyfer ychwanegiadau gwallt i ddynion a menywod
3. disgrifio'r **cyngor ôl-ofal** y dylid ei ddarparu
4. amlinellu **arferion gwaith diogel a hylan**
5. nodi sut i **gyfathrebu ac ymddwyn** o fewn amgylchedd salon

**Cwmpas**

**Cyfathrebu ac ymddwyn**

**Cyfathrebu:** siarad, gwrando, iaith y corff, darllen, cofnodi, dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystod o derminoleg gysylltiedig

**Ymddwyn:** gweithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, dilyn gofynion salon

**Cynhyrchion, offer, cyfarpar ac ategolion**

**Cynhyrchion:** cynhyrchion steilio, cynhyrchion gorffen, sychwr llaw, sychwr cwfwl, gwasgarwr, ffroenell,

**Offer a chyfarpar:** brwshys crwn, brwshys fflat, rholeri wedi'u sicrhau â phinnau, cyrls pin, sythwyr, gefeiliau cyrlio, rholeri wedi'u cynhesu.

**Ategolion:** plu, rhubanau, blodau.

**Technegau steilio parhaol**

Lliwio, pyrmio

**Cyngor ôl-ofal**

Cynnal steil, tynnu a gofalu am yr estyniad gwallt dros dro

**Arferion gweithio diogel a hylan**

Dulliau o sterileiddio, gwaredu gwastraff wedi'i halogi, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, cyfarpar diogelu personol, cyfarwyddiadau i eraill a'u cyfrifoldeb eu hunain.

# Atodiad 1 Anatomeg a ffisioleg

## Anatomeg a ffisioleg

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys yr holl dasgau Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer y cymwysterau Lefel 2.

**Ar gyfer unedau gwahanol mae angen bodloni meini prawf gwahanol, nodir y rhain gan *. Gweler unedau unigol yn y ddogfen hon ac aseiniadau yn y Pecyn Asesu ar gyfer gofynion penodol.**

Mae'r siart ar dudalen 149 yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r tasgau Anatomeg a Ffisioleg fesul uned.

Mae diagramau wedi'u darparu y gellir eu defnyddio i gwblhau'r tasgau. Mae City & Guilds wedi eu darparu mewn dogfen ar wahân sydd ar gael i'w lawrlwytho o'r 3003 tudalen ar **www.cityandguilds.com**.

***Croen/*Gwallt/*Ewinedd**

- esbonio swyddogaeth y *croen/*gwallt/*ewinedd
- labelu'r diagram: strwythur croestoriad y *croen/ *gwallt /*ewinedd
- disgrifio cylch twf gwallt

**System gardiofasgwlaidd**

- disgrifio swyddogaeth gwaed
- labelu'r diagram: prif bibellau gwaed yn yr ardaloedd triniaeth cyffredin: *pen, gwddf ac ysgwydd/* braich a llaw/*rhan isa'r y goes a throed

**System lymffatig**

- disgrifio swyddogaethau'r system lymffatig
- labelu'r diagram: lleoliad prif nodau lymff  y *pen, gwddf ac ysgwydd/* braich a llaw/*rhan isa'r goes a throed

**System ysgerbydol**

- disgrifio swyddogaeth yr esgyrn: *pen, gwddf ac ysgwydd /* rhan isa'r fraich a llaw/*rhan isa'r goes a throed
- labelu'r diagram: esgyrn y * pen, gwddf ac ysgwydd/*rhan isa'r goes a throed/ *rhan isa'r fraich a llaw

**System gyhyrol**

- labelu'r diagram: cyhyrau'r *pen, gwddf ac ysgwydd /* rhan isa'r fraich a llaw/*rhan isa'r goes a throed
- nodi gweithred cyhyrau'r *pen, gwddf ac ysgwydd /* rhan isa'r fraich a llaw/*rhan isa'r goes a throed

**Clust**

- labelu'r diagram: strwythur allanol y glust i cynnwys pinna, llabed a helics
- labelu cyflenwad gwaed a lymff i'r glust.

# Anatomeg a ffisioleg: Trosolwg fesul uned

| Uned | 204 | 206 | 207 | 208 | 209 | 210 | 211 | 214 | 215 | 217 | 218 | 219 | 220 | 222 | 223 | 224 | 225 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tasg** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Croen/Gwallt/ Ewinedd*** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **System gardiofasgwlaidd*** | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | |
| **System lymffatig*** | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | |
| **System sgerbydol*** | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | | | |
| **System gyhyrol*** | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | | | ✓ | | | |
| **Clust** | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | |

Mae tasgau ar gyfer * Croen/*Gwallt/* Ewinedd, *Cardiofasgwlaidd, *Lymffatig, *Systemau Sgerbydol a * Chyhyrol yn cwmpasu ystod o wybodaeth sy'n ymwneud â gwahanol rannau o'r corff i fodloni gofynion gwahanol unedau. Gweler unedau/aseiniadau unigol ar gyfer gofynion penodol.

# Cwmpas anatomeg a ffisioleg

Mae'r ystod o wybodaeth am bob system wedi'i rhestru yn y tudalennau canlynol. Mae hyn yn ganllaw ar gyfer tiwtoriaid/aseswyr ynghylch yr hyn sydd angen ei gynnwys wrth ddarparu'r cymhwyster ar gyfer pob system gorff.

## Systemau'r corff

A Croen

B Gwallt

C Ewinedd

CH Cardiofasgwlaidd

D Lymffatig

DD Sgerbydol

E Cyhyrol

F Clust

# A Croen

Swyddogaeth, strwythur normal, cylch twf a thrwsio, nodweddion, clefydau ac anhwylderau

1 swyddogaeth y croen – darparu

- a teimlad: tymheredd; cyffwrdd; pwysedd; poen
- b rheoli gwres chwysu; fasogyfyngiad fasoymlediad
- c amsugnad
- ch diogelu
- d ysgarthiad
- dd secretiad
- e cynhyrchu fitamin (cynhyrchu fitamin D)

2 strwythur normal y croen

- a prif haenau
  - i epidermis
  - ii dermis
  - iii isgroenol
- b epidermis – haenau/ strwythurau
  - i corniog - stratum corneum
  - ii clir – stratum lucidum
  - iii gronynnol - stratwm granulosum
  - iv cell bigog - stratum spinosum
  - v cell waelodol - stratum germinativum
- c dermis - haenau/ strwythurau
  - i haen bapilaidd
  - ii haen rwydennol
  - iii haen isgroenol
  - iv blew mewn ffoligl
  - v cyhyr arrector pili
  - vi chwarennau a dwythellau chwys ecrinaidd ac apocrinaidd
  - vii chwaren sebwm a sebwm
  - viii rhwydwaith capilari gwaed a lymff
  - ix terfyniadau nerf synhwyraidd
- ch isgroenol
  - i meinwe bloneg

3 cylch twf ac atgyweirio'r croen

- a proses gyffredinol: ffurfiant cell parhaus; aeddfedrwydd cell; marwolaeth cell a diosg (digeniad)
- b gweithrediad y parth eginol celloedd langerhan a melanocytau
- c gweithred y parth ceratineiddio
- ch yr haen rwydennol: celloedd ffibroblast - ffurfiant elastin a cholagen terfynau nerf yn teimlo synhwyrau
- d yr haen bapilaidd: cyflenwad gwaed; mastgelloedd, histamin, macroffagau; pibellau lymffatig; terfynau nerf yn nodi synhwyrau

4 clefydau ac anhwylderau – eu hachosion ac edrychiad

- a heintiau bacteriol
  - i impetigo
  - ii llid y gyfbilen
  - iii hordeolum – llefrithen
  - iv cornwydydd
  - v carbynclau
  - vi paronychia – meinwe o gwmpas ewinedd
  - vii llid y gyfbilen/llygad pinc
- b heintiau firaol
  - i herpes simplex
  - ii herpes zoster - yr eryr
  - iii ferwcau, dafadennau
- c Plâu
  - i scabies - gwiddon cosi
  - ii pediculosis capitis - llau pen
  - iii pediculosis corporis
- ch clefydau ffwngaidd
  - i tinea corporis – tarwden corff
  - ii tinea pedis – tarwden y traed
- d anhwylderau'r chwaren sebwm
  - i milia
  - ii comedonau - penddiynnod
  - iii seborrhoea
  - iv gwergrancod, systiau sebwm neu y wen
  - v acne vulgaris
  - vi rosacea
- dd anhwylderau pigmentiad
  - i ephelides – brychau haul
  - ii cloasma
  - iii vitiligo
  - iv albinedd
  - v naevi fasgwlaidd
  - vi gwritgochni
  - vii capilarïau wedi ymagor

e anhwylderau croen yn ymwneud â thwf annormal

- i psoriasis
- ii dafadennau seborrheig neu henaint

f tiwmorau malaen

ff alergeddau

- i dermatitis
- ii ecsema
- iii urticaria – brech danadl poethion neu losg dynad

5 effeithiau heneiddio ar y croen

# B Ewinedd

Swyddogaeth, strwythur normal, nodweddion, afiechydon ac anhwylderau

1. swyddogaeth yr ewinedd
   - a diogelu ardaloedd hynod sensitif o'r bysedd a bysedd y traed
   - b cynorthwyo bysedd i afael mewn gwrthrychau

2 strwythur uned yr ewinedd
   - a gwely ewinedd
   - b hyponychium
   - c eponychium
   - ch matrics
   - d lwnwla
   - dd cwtigl
   - e plât ewinedd
   - f ymyl rydd

3 nodweddion ewinedd - naturiol ac wedi'u trin
   - a siapiau naturiol ewinedd a therminoleg gysylltiedig
     - i ffan / gwyntyll
     - ii cul
     - iii sgwâr
     - iv hirgrwn
     - v naid sgi
     - vi bachyn
     - vii pwyntiog

4 cylch twf ewinedd
   - a ffurfiant ewinedd
   - b cyfraddau twf normal - dwylo a thraed
   - c ffactorau'n effeithio twf a chyfradd twf
   - ch effaith difrod ar dwf
   - d trwch ewinedd

5 clefydau ac anhwylderau — eu hedrychiad ac achosion
   - a anonychia — absenoldeb cynhenid ewinedd
   - b llinellau beau — pantiau llorweddol dwfn ar bob ewin
   - c ewin crog - sych, cwtigl hollt neu groen ar rigol yr ewin
   - ch ewin pantiog - ewinedd siâp llwy
   - d leukonychia —smotiau gwyn
   - dd rhychau hydredol
   - e gŵyn arfer - ewinedd trwchus, crwm, rhychiog
   - f onychophagy — cnoi ewinedd
   - ff onycholysis - gwahaniad yr ewin o wely'r ewin
   - g paronychia — haint bacteriol y cwtigl
   - ng tinea ungium tarwden yr ewinedd
   - h onychocryptosis - ewinedd mewndyfol
   - i pterygium — gordyfiant cwtigl
   - l ewin wedi'i gleisio'n ddifrifol

# C Gwallt

Strwythur normal y gwallt, cyfansoddiad, priodweddau a chyflyrau anffafriol ac anhwylderau

1 y mathau gwallt sylfaenol a ble maen nhw
- a gwallt felws
- b gwallt terfynol
- c blew mân (lanwgo)

2 y gwallt yn y croen, y cylch twf gwallt a ffoligl gwallt:
- a y blew yn y croen
  - i cyflenwad gwaed i'r papilâu croenol, rhydweli, gwythïen, dolen gapilaraidd
  - ii bwlb gwallt
  - iii dermal papilla
- b cylch twf y gwallt - y camau nodweddiadol
  - i Anagen
  - ii catagen
  - iii telogen

2 strwythur y siafft gwallt
- a strwythur siafft gwallt
  - i cwtigl gwallt
  - ii cortecs
  - iii medwla

4 mathau gwallt
- a gweadedd gwallt
  - i mân
  - ii garw

## CH Cardiofasgwlaidd

Strwythur a swyddogaeth y system gardiofasgwlaidd

1 Strwythur sylfaenol y system gardiofasgwlaidd

- A y galon
- B y gwaed
- C y pibellau gwaed

2 Swyddogaethau'r gwaed

- a yn cludo ocsigen o'r ysgyfaint i gelloedd y corff
- b yn cludo carbon deuocsid o'r celloedd i'r ysgyfaint
- c yn cludo cynhyrchion gwastraff o'r celloedd i'r arennau, ysgyfaint
- ch yn cludo hormonau or chwarennau endocrinaidd i'r celloedd
- d yn cludo ensymau i'r celloedd priodol
- dd yn helpu i reoli tymheredd y corff
- e atal colli hylif trwy ei fecanwaith ceulo
- f yn cludo corffilod gwyn i ffynhonnell yr haint
- ff yn cludo maetholion o'r llwybr treulio i gelloedd y corff

3 y prif bibellau gwaed yn yr ardaloedd triniaeth cyffredin: hunaniaeth a lleoliad

- a y pen, yr wyneb a'r gwddf
  - i rhydweli garotid gyffredin
  - ii rhydweli garotid allanol
  - iii rhydweli garotid fewnol
  - iv gwythïen allanol y gwddf
  - v gwythïen fewnol y gwddf
- b Llaw, arddwrn a blaen y fraich
  - i rhydweli freichiol
  - ii rhydweli rheiddiol
  - iii rhydweli wlnar
- c troed, migwrn, a rhan isaf y goes
  - i rhydweli'r forddwyd
  - Ii rhydweli tibiaidd flaen
  - iii rhydweli tibiaidd ôl
  - iv gwythïen saffenaidd
  - v gwythïen y forddwyd

# D Lymffatig

Strwythur a swyddogaeth y system lymffatig

1 strwythur cyffredinol y system lymffatig
   - a capilarïau lymffatig
   - b pibellau lymffatig
   - c cygnau lymffatig (chwarennau)
   - ch meinwe lymffoid (tonsiliau)

2 lleoliad y prif gygnau lymffatig, eu swyddogaeth
   - a cygnau yn y pen a'r gwddf
     - i grŵp bochaidd
     - ii grŵp y mandibl gan gynnwys grŵp is-fandibl
     - iii blaen / clust (grŵp mastoid)
     - iv grŵp ocsipitol
     - v awriglaidd ôl (grŵp parotid)
     - vi grŵp cerfigol arwynebol
     - vii grŵp cerfigol dwfn

## DD Sgerbydol

Strwythur a swyddogaeth y system sgerbydol

1 strwythur y sgerbwd

- a swyddogaethau sylfaenol esgyrn y pen - amddiffyn yr ymennydd, rhoi strwythur wyneb
- b esgyrn y pen
  - i talcen
  - ii parwydol
  - iii arleisiol
  - iv ocsipitol
  - v sffenoid
  - vi ethmoid
  - vii trwynol
  - viii sygomatig
  - ix macsilâu
  - x mandibl
  - xi pedwar sinws y pen – blaen, ethmoidol, sffenoidol a macsiliari
  - xii swyddogaethau sylfaenol esgyrn y pen - amddiffyn yr ymennydd, rhoi strwythur wyneb
- c esgyrn a strwythur yr asgwrn cefn
  - i fertebrau cerfigol atlas; echelin
  - ii fertebrâu thorasig
- ch strwythur esgyrn y torso
  - i asennau
  - ii sternwm
  - iii claficl
  - iv scapula
- d strwythur esgyrn rhan ucha'r breichiau
  - i hwmerws / asgwrn y fraich
  - Ii radiws
  - iii wlna
- dd strwythur esgyrn y dwylo
  - I carpalau
  - Ii metacarpolau
  - Iii ffalangau
- e strwythur esgyrn rhan isa'r coesau
  - i ffemwr / asgwrn y forddwyd
  - ii padell pen-glin
  - iii tibia
  - iv fibula
- f strwythur esgyrn y traed
  - i tarsolau

ii metatarsolau
iii ffalangau

2 mathau o gymalau ac ystod symudiad a ddarperir
a mathau sylfaenol o gymal
i ffibraidd
ii cartilagaidd
iii synofaidd
b mathau a lleoliad y cymal synofaidd canlynol
i llithro
ii colfach
iii colyn
iv pêl a soced
v cambylaidd a chyfrwy
c ystod symudiad cymal

# E Cyhyrol

Strwythur a swyddogaeth y system gyhyrol

1 lleoliad a gweithred:

- a cyhyrau'r pen a'r wyneb
  - i frontalis
  - ii occipito-frontalis
  - iii temporalis
  - iv procerus
  - v crychwr
  - vi orbicularis oculi
  - vii nasalis
  - viii orbicularis oris
  - ix risorius
  - x bochinadur
  - xi quadratus labii superioris
  - xii labii gostyngol
  - xiii mentalis
  - xiv triangularis
  - xv maseter
  - xvi platysma
  - xvii sternocleido-mastoid
  - xviii trapezius
  - Xix sygomatig

- b cyhyrau ysgwydd, braich a llaw
  - i deltoid
  - ii levator scapulae
  - iii cyhyr deuben
  - iv cyhyrau triphen
  - v extensor carpi radialis: longus; brevis / byr
  - vi flexor carpi radialis
  - vii extensor carpi ulnaris
  - viii flexor carpi ulnaris
  - ix extensor digitorum
  - x ymchwydd cledrol

- c cyhyrau'r thoracs
  - i pectoralis major
  - ii trapezius

- ch cyhyrau rhan isaf y goes a'r droed
  - i gastrocnemius
  - ii soleus
  - iii tibialis anterior
  - iv digitorum longus – extensor a flexor
  - v hallucis longus - extensor a flexor

# F Clust

Strwythur allanol y glust

- a awrigl
  - i helics - ymyl uchaf
- b pinna
  - i llabedyn - llabed isaf

# Atodiad 2 Cysylltiadau â chymwysterau eraill ac SGC

Mae City & Guilds wedi nodi'r cysylltiadau â chymwysterau eraill a'r SGC. Darperir y gwaith mapio hwn fel canllaw ac mae'n awgrymu meysydd o orgyffwrdd a meysydd cyffredin rhwng y cymwysterau. Nid yw'n awgrymu bod ymgeiswyr sy'n cwblhau unedau mewn un cymhwyster yn cwmpasu holl gynnwys y cymwysterau a restrir yn y mapio yn awtomatig.

Mae canolfannau'n gyfrifol am wirio gofynion gwahanol yr holl gymwysterau y maent yn eu darparu a sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni gofynion pob uned/cymhwyster. Er enghraifft, gall cymhwyster ddarparu gwybodaeth tuag at N/SVQ, ond mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r holl ofynion gwybodaeth a nodir yn y safonau N/SVQ.

Mae gan y cymwysterau gysylltiadau â:
N/SVQ mewn Therapi Harddwch Lefel 2

**Perthynas â Safonau NVQ**

Mae'r grid canlynol yn mapio'r wybodaeth a gwmpesir yn Nyfarniadau Lefel 2 City & Guilds / Tystysgrifau/Diplomâu mewn Therapi Harddwch yn erbyn gwybodaeth sylfaenol am Lefel 2 N / SVQ mewn Therapi Harddwch a Lefel 2 N/SVQ mewn Gwasanaethau Ewinedd.

| | Uned G1 | Uned G4 | Uned G18 | Uned B4 | Uned B5 | Uned B6 | Uned B7 | Uned B8 | Uned B9 | Uned B11 | Uned B15 | Uned B16 | Uned B17 | Uned B18 | Uned B23 | Uned B25 | Uned B34 | Uned N2 | Uned N3 | Uned N4 | Uned N5 | Uned N6 | Uned N7 | Uned N8 | Uned GH9 | Uned GH10 | Uned G11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 202 | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 204 | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 205 | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 206 | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 207 | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | |
| Uned 208 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | |
| Uned 209 | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 210 | | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 211 | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 214 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Uned 215 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | |
| Uned 216 | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 217 | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 218 | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | Uned G1 | Uned G4 | Uned G18 | Uned B4 | Uned B5 | Uned B6 | Uned B7 | Uned B8 | Uned B9 | Uned B11 | Uned B15 | Uned B16 | Uned B17 | Uned B18 | Uned B23 | Uned B25 | Uned B34 | Uned N2 | Uned N3 | Uned N4 | Uned N5 | Uned N6 | Uned N7 | Uned N8 | Uned GH9 | Uned GH10 | Uned G11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 219 | | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | |
| Uned 220 | | | | | | | | ✓ | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 221 | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 222 | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | |
| Uned 223 | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | |
| Uned 224 | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 225 | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Uned 226 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | | |
| Uned 227 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ |

# Atodiad 3 Y cwricwlwm ehangach

Gall cyflwyno'r unedau hyn gyfrannu at ddealltwriaeth y dysgwr o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol yn y modd canlynol:

**Ysbrydol/Moesol/Moesegol** Mae gan ddarparu ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian ddimensiwn moesol/moesegol pwysig, fel y mae pwysigrwydd parchu cyfrinachedd cleientiaid. Mae gwerthfawrogi a pharchu credoau, gwerthoedd, rhywedd ac anableddau eraill yn allweddol i feithrin perthnasoedd cleientiaid a gwaith da. Mae'n sail i'r holl unedau yn y cymwysterau hyn.

**Cymdeithasol/Diwylliannol:** Bydd dysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol a datblygu perthynas dda ag eraill – eu cyfoedion, aseswyr/athrawon, goruchwylwyr a chleientiaid – yn allweddol i'w llwyddiant gyrfaol a llwyddiant y salon. Mae'n sail i'r holl unedau yn y cymwysterau hyn.

**Amgylcheddol/Iechyd a Diogelwch:** Mae deall pwysigrwydd cynnal glendid yn y salon, gwaredu cynhyrchion gwastraff yn ddiogel, a sicrhau bod amgylchedd y salon yn ddymunol ac yn rhydd o risgiau y gellir eu hosgoi, yn allweddol i ddarparu gwasanaeth da. Mae'n sail i'r holl unedau yn y cymwysterau hyn.

# Cysylltiadau defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Dysgwyr y DU**<br>**Gwybodaeth gyffredinol am gymwysterau** | **Ffôn: +44 (0)844 543 0033**<br>**E-bost: learnersupport@cityandguilds.com** |
| **Dysgwyr rhyngwladol**<br>Gwybodaeth gyffredinol am gymwysterau | Ffôn: +44 (0)844 543 0033<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **intcg@cityandguilds.com** |
| **Canolfannau**<br>Ceisiadau arholiadau, Cofrestriadau/ymrestru, Tystysgrifau, Anfonebau, Deunyddiau arholiad coll neu hwyr, Adroddiadau cofrestr enwol, Canlyniadau | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **centresupport@cityandguilds.com** |
| **Cymwysterau pwnc sengl**<br>Ceisiadau arholiadau, Canlyniadau, Ardystio, Deunyddiau arholiad coll neu hwyr, Papurau arholiad anghywir, Cais am ffurflenni (BB, cofnod canlyniadau), Newid dyddiad ac amser arholiad | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2413<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2404 (ffurflenni BB)<br>E-bost: **singlesubjects@cityandguilds.com** |
| **Dyfarniadau rhyngwladol**<br>Canlyniadau, Ceisiadau, Cofrestriadau, Anfonebau, Deunyddiau arholiad ar goll neu hwyr, Adroddiadau cofrestri enwol | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **intops@cityandguilds.com** |
| **Walled Garden**<br>Ail-gyhoeddi cyfrinair neu enw defnyddiwr, Problemau technegol, Cofnodion, Canlyniadau, GOLA, Llywio, Opsiwn Defnyddiwr/ dewislen, Problemau | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2413<br>E-bost: **walledgarden@cityandguilds.com** |
| **Cyflogwyr**<br>Atebion cyflogwyr, Mapio, Achredu, Sgiliau Datblygu, Ymgynghoriaeth | Ffôn: +44 (0)121 503 8993<br>E-bost: **business@cityandguilds.com** |
| **Cyhoeddiadau**<br>Llyfrau log, Dogfennau'r ganolfan, Ffurflenni, Llenyddiaeth am ddim | Ffôn: +44 (0)844 543 0000<br>Ffacs: +44 (0)20 7294 2413 |

**Os oes gennych gŵyn neu unrhyw awgrym i wella unrhyw un o'r gwasanaethau mae City & Guilds yn eu darparu, e-bostiwch: feedbackandcomplaints@cityandguilds.com**

Cyhoeddwyd gan City & Guilds
5-6 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DD
Ffôn +44 (0)844 543 0000
Ffacs +44 (0)20 7294 2413
www.cityandguilds.com

Cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif y cwmni 16513878).

HB-01-3003